

## CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Jayne Norman (Maer); Cynghorwyr Julie Aviet, Vincent Bailey, Rhiannon Birch, Jonathan Bird, Bronwen Brooks, Lis Burnett, George Carroll, Christine Cave, Janice Charles, Millie Collins, Geoff Cox, Robert Crowley, Andrew R.T. Davies, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Stewart Edwards, Ben Gray, Owen Griffiths, Stephen Griffiths, Sally Hanks, Nic Hodges, Hunter Jarvie, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Gordon Kemp, Peter King, Kevin Mahoney, Kathryn McCaffer, Anne Moore, Neil Moore, Michael Morgan, Rachel Nugent-Finn, Andrew Parker, Bob Penrose, Sandra Perkes, Andrew Robertson, Ruba Sivagnanam, John Thomas, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams a Mark Wilson.

### 893 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 894 DATGANIADAU BUDDIANT –

Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

Y Cynghorydd J. Aviet	Eitem Agenda Rhif 8(f) – Cyfrif Refeniw Tai (CRT) Terfynol 2022/23; natur y buddiant oedd ei bod yn denant i'r Cyngor, ond nid oedd ei buddiant personol yn gyfystyr â buddiant rhagfarnus.
Y Cynghorydd J. Aviet	Eitem Agenda Rhif 8(i) – Cynllun Busnes y CRT; natur y buddiant oedd ei bod yn denant i'r Cyngor, ond nid oedd ei buddiant personol yn gyfystyr â buddiant rhagfarnus.
Y Cynghorydd J. Aviet	Eitem Agenda Rhif 10(g) – Cynigion Terfynol ar gyfer Cyllideb 2022/23 y CRT; natur y buddiant oedd ei bod yn denant i'r Cyngor, ond nid oedd ei buddiant personol yn gyfystyr â buddiant rhagfarnus.

Y Cynghorydd J. Aviet	Eitem Agenda Rhif 10(k) – Cynllun Busnes y CRT; natur y buddiant oedd ei bod yn denant i'r Cyngor, ond nid oedd ei buddiant personol yn gyfystyr â buddiant rhagfarnus.
Y Cynghorydd C.A Cave	Eitem Agenda 8(l) - Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden. Datganodd y byddai'n ymatal rhag pleidleisio pe bai pleidlais yn cael ei chynnal gan ei bod yn talu ardrethi annomestig.
Y Cynghorydd R. Crowley	Eitem Agenda Rhif 8(b) – Polisi Cyflog 2022/23; natur y buddiant oedd bod aelodau o'i deulu'n cael eu cyflogi gan y Cyngor, ond roedd ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.
Y Cynghorydd G.C Kemp	Eitem Agenda Rhif 8(b) – Polisi Cyflog 2022/23; natur y buddiant oedd bod aelod o'i deulu'n cael ei gyflogi gan y Cyngor, ond roedd ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.
Y Cynghorydd A. Moore	Eitem Agenda Rhif 8(b) – Polisi Cyflog 2022/23; natur y buddiant oedd bod aelod o'i theulu'n cael ei gyflogi gan y Cyngor, ond roedd ganddi oddefeb i siarad a phleidleisio.
Y Cynghorydd N. Moore	Eitem Agenda Rhif 8(b) – Polisi Cyflog 2022/23; natur y buddiant oedd bod aelod o'i deulu'n cael ei gyflogi gan y Cyngor, ond roedd ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.
Y Cynghorydd M.R Wilkinson	Eitem Agenda Rhif 8(b) – Polisi Cyflog 2022/23; natur y buddiant oedd bod aelod o'i theulu'n cael ei gyflogi gan y Cyngor, ond roedd ganddi oddefeb i siarad a phleidleisio.
Y Cynghorydd M.R Wilkinson	Eitem Agenda Rhif 8(f) – CRT Terfynol 2022/23; natur y buddiant oedd ei bod yn denant i'r Cyngor, ond nid oedd ei buddiant personol yn gyfystyr â buddiant rhagfarnus.

Y Cyngorydd M.R Wilkinson	Eitem Agenda Rhif 8(i) – Cynllun Busnes y CRT; natur y buddiant oedd ei bod yn denant i'r Cyngor, ond nid oedd ei buddiant personol yn gyfystyr â buddiant rhagfarnus.
Y Cyngorydd M.R Wilkinson	Eitem Agenda Rhif 10(g) – Cynigion Terfynol ar gyfer Cyllideb 2022/23 y CRT; natur y buddiant oedd ei bod yn denant i'r Cyngor, ond nid oedd ei buddiant personol yn gyfystyr â buddiant rhagfarnus.
Y Cyngorydd M.R Wilkinson	Eitem Agenda Rhif 10(k) – Cynllun Busnes y CRT; natur y buddiant oedd ei bod yn denant i'r Cyngor, ond nid oedd ei buddiant personol yn gyfystyr â buddiant rhagfarnus.

#### 895 COFNODION –

#### PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.
- (2) Bod cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 24ain Ionawr, 2022 am 6.00 p.m. cael ei gymeradwyo fel cofnod cywir.
- (3) Bod cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 24ain Ionawr, 2022 am 6.35 p.m. cael ei gymeradwyo fel cofnod cywir.

#### 896 CYHOEDDIAD –

- (i) Cyhoeddodd yr Arweinydd y canlynol.

Rhaid i mi sôn am y rhyfel sy'n digwydd yn Wcráin – Cymdeithas Ewropeaidd Ddemocrataidd, Gwladwriaeth Sofran a Gwlad yn ei rhinwedd ei hun gyda Llywodraeth wedi'i hethol yn ddemocrataidd.

Roedd yr ymosodiad ffaidd ar Wcráin gan fyddinoedd Rwsia ar gyfarwyddiadau Vladimir Putin yn Weithred o Ryfel direswm sy'n parhau i waethygu – fel y mae'r argyfwng dyngarol enbyd, sydd wedi arwain at ddadleoli mwy nag 1 miliwn a hanner o bobl. Bydd y sioc, yr arswyd a'r anobaith sy'n cael ei ddiodef gan Bobl Wcráin yn cael eu nodi fel yr argyfwng dyngarol mwyaf ar ein cyfandir ers yr Ail Ryfel Byd.

Rhaid i ni i gyd ailadrodd ein hundod pendant i Bobl Wcráin ac eraill a ddadleolwyd yn wyneb ymosoddedd Putin y mae rhai ohonynt yn gwrthsefyll yr ymosodiad hwn yn ddewr ar eu sofran, eu hannibyniaeth a'r hawl i hunanbenderfynu.

Mae argyfwng o'r fath hefyd yn dangos y ffordd y mae gwledydd Ewropeaidd eraill wedi gweithredu o ran cefnogaeth a chymorth, yn enwedig y modd anhunanol y maent wedi cynnig noddfa i'r rheiny sy'n dianc rhag canlyniadau'r ymosodiad diesgus hwn.

Rhaid i ni hefyd dalu teyrnged i'r myfyrwyr a'r bobl ifanc dewr o Rwsia sydd wedi bod yn protestio'n ddewr ar draws Ffederasiwn Rwsia. Nhw yw dyfodol gwirioneddol Rwsia ac rwy'n eu canmol am eu safiad yn erbyn y Kremlin.

Yma yn y Fro efallai ein bod yn ymddangos yn bell iawn o'r argyfwng, ond rwyf eisoes yn ymwybodol bod pobl yn gofyn beth y gallwn ei wneud ac a fyddwn yn cefnogi unrhyw gynlluniau ffoaduriaid a allai gael eu rhoi ar waith.

Yr ateb syml yw – 'byddwn' – fel yr ydym wedi'i wneud gyda ffoaduriaid eraill, sydd angen cysgod, cymorth a chysur. Fel Cenedl Noddfa, rydym yn barod i groesawu pobl sydd angen ac sydd am adael Wcráin ar yr adeg dyngedfennol hon.

Gofynnwyd i'r Swyddfa Gartref ei gwneud yn haws dianc i Brydain o ystyried nifer y bobl sy'n casglu ar ffiniau Wcráin a thu hwnt. Mae'r Swyddfa Gartref eisoes wedi creu "Cynllun Ailsefydlu'r DU" byd-eang, tua 12 mis yn ôl, felly mae'r mecanwaith polisi yn bodoli i dderbyn faciwís / ffoaduriaid o bosibl, y bydd rhai ohonynt, yr wyf yn siŵr, am ddychwelyd adref, fel y byddwn i, os bydd pethau'n sefydlogi.

Gan symud ymlaen, rwyf eisoes wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, Arweinwyr Awdurdodau Lleol a CLILC ac mae cymorth yn cael ei gydlynw ar draws teulu'r llywodraeth leol.

Hoffwn ddweud gair am gymorth a chefnogaeth ac er fy mod yn deall yr awydd yr ydym i gyd yn ei deimlo i wneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl Wcráin, byddwn yn annog unrhyw un sy'n gallu helpu i ystyried cyfrannu rhodd ariannol.

Gellir gwneud hyn drwy'r Groes Goch Brydeinig, UNICEF UK neu i'r Pwyllgor Argyfyngau Brys yn [www.dec.org.uk](http://www.dec.org.uk) sy'n cynrychioli 15 o elusennau cymorth mawr. Bydd dyrannu'r arian fel hyn yn sicrhau bod y cymorth targedig yn cyrraedd y rheiny sydd ei angen mor gyflym ac mor effeithlon â phosibl, yn hytrach na thrwy roi nwyddau.

Dyddiau tywyll yn sicr yw'r rhain, roeddwn yn gobeithio peidio â'u gweld yn ystod fy oes, ond sy'n rhoi ffocws ar y rhesymau pam mae trefniadau gefeillio a Diplomyddiaeth yn bodoli yn Ewrop rhwng pobl Ewrop a'u gwledydd gan sicrhau amgylcheddau sefydlog, heddychlun a diogel i weithio, byw a magu teuluoedd.

Mae angen i mi bwysleisio hefyd, er bod ein meddyliau gyda Phobl Wcráin, fod yn rhaid i ni gofio hefyd fod aelodau cymunedol gwerthfawr o Wcráin, Rwsia a Belarws yn byw yng Nghymru a rhaid i ni sicrhau bod ein geiriau a'n gweithredoedd yn diogelu eu diogelwch hefyd ac nad ydym yn targedu ymddygiad ymosodol at y rheiny nad oes ganddynt unrhyw ddylanwad ar ymosodedd Putin.

Yn olaf, byddaf yn sicrhau y bydd ein gwefan a'n sianeli cyfryngau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb os bydd unrhyw gyhoeddiadau gan Lywodraeth y DU.

Mewn ymateb, manteisiodd y Maer ar y cyfle i adleisio sylwadau'r Arweinydd a gefnogwyd yn llwyr.

897 DEFNYDD O BWERAU BRYS Y PRIF WEITHREDWR (PW) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng y Rheolwr-gyfarwyddwr.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar Gyfansoddiad y Cyngor.

898 YMGYNGHORIAD Â THRETHDALWYR ANNOMESTIG (PW) –

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Talwyr Ardrethi Annomestig (Ymgynghori) 1992 (Offeryn Statudol Rhif 3171), rhoddwyd hysbyseb yn gwahodd talwyr ardrethi annomestig i ystyried cynigion gwariant y Cyngor ac i gyflwyno sylwadau ar yr un peth yn y Western Mail ar 23 Chwefror, 2022.

Anfonwyd copïau o gynigion gwariant y Cyngor at dalwyr ardrethi annomestig lleol, a wahoddwyd i gyflwyno unrhyw sylwadau erbyn hanner dydd ar 7 Mawrth, 2022. Ar ôl i'r Arweinydd roi gwybod i'r Aelodau na chafwyd unrhyw ymatebion o ganlyniad i'r ymgynghoriad, fe'i

PENDERFYNWYD – Nodi'r sefyllfa gan na chafwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Talwyr Ardrethi Annomestig (Ymgynghori) 1992 (Offeryn Statudol Rhif 3171).

899 TREFNIADAU DIRPRWYO AR GYFER PRIF WEITHREDWR A DIWYGIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR (PW) –

Argymhellodd yr adroddiad y dylid ategu'r trefniadau dirprwyo ar gyfer y Prif Weithredwr, yn achos ei absenoldeb (er enghraifft, gwyliau blynyddol neu absenoldeb salwch) i gynnwys swyddi'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Lleoedd gyda hynny'n dod i rym ar ôl i'r Cyfarwyddwyr hynny ddechrau yn eu swyddi.

Argymhellwyd ychwanegu teitlau'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Lleoedd at Gynllun Dirprwyo Swyddogion y Cyngor a nodwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â'r gwasanaethau y bydd pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol amdanynt, gan ddod i rym ar unwaith ar ôl i bob Cyfarwyddwr ddechrau yn y swydd.

Nododd yr adroddiad hefyd y diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a wnaed gan y Swyddog Monitro yn unol ag awdurdod dirprwyedig yng ngoleuni ailbenodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr i'r Prif Weithredwr. Byddai Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol gan gynnwys newidiadau canlyniadol gofynnol o ganlyniad i ddarpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a ddaeth i rym ar 5 Mai 2022.

## PENDERFYNWYD -

- (1) Cymeradwyo'r trefniadau ychwanegol i ddirprwy gyflenwi ar gyfer y Prif Weithredwr, fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.1 yr adroddiad, i sicrhau cyflenwi yn ystod unrhyw absenoldeb yn y dyfodol ac i sicrhau y gellir cyflawni dirprwyaethau'r Prif Weithredwr fel y'u nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
- (2) Cymeradwyo'r trefniadau y cyfeirir atynt ym Mhenderfyniad (1) ar unwaith a'u harfer drwy'r Prif Weithredwr yn enwebu dirprwy o blith Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Lleoedd.
- (3) Cynnwys teitlau'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Lleoedd yng Nghynllun Dirprwyo Swyddogion y Cyngor mewn perthynas â'r gwasanaethau y bydd pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol amdanynt, gan ddod i rym ar unwaith ar ôl i bob Cyfarwyddwr ddechrau yn y swydd.
- (4) Nodi bod y Swyddog Monitro wedi gwneud diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad i adlewyrchu diwygiadau achlysurol o ganlyniad i ailbenodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr i'r Prif Weithredwr a rhai newidiadau cadw tŷ.
- (5) Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor fel y'u nodir ym mharagraff 2.6 yr adroddiad ac fel y nodir yn Atodiadau B ac C, i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a ddaeth i rym, a chymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig y cyfeirir atynt yn Atodiad B a oedd i fod i ddod i rym ar 5 Mai, 2022.

### Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1-3) I sicrhau trefniadau rheoli priodol yn achos absenoldeb y Prif Weithredwr.
- (4) I ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu newidiadau a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor.
- (5) I adlewyrchu darpariaethau statudol presennol a'r rheiny sydd yn yr arfaeth.

## 900 STRATEGAETH DDRAFFT AR DAI LLEOL 2021–2026 (CYF) –

Ystyriwyd y strategaeth ddrafft gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 12 Ionawr 2022 a chyfeiriwyd at y Cabinet ar 14 Chwefror 2022 fel yr amlinellwyd yn y cyfeiriad, ac roedd bellach yn cael ei chyfeirio at y Cyngor i'w chymeradwyo.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo'r Strategaeth Dai Lleol Ddrafft fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 14 Chwefror 2022, Cofnod Rhif C809.

### Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## 901 POLISI TÂL 2022/2023 (CYF) –

Roedd gan y Cyngor ofyniad statudol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i baratoi datganiad polisi cyflog ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd sef 2022/23. Roedd angen cymeradwyo a chyhoeddi'r datganiad erbyn 31 Mawrth 2022. Rhoddodd y ddogfen fframwaith ar gyfer sicrhau bod cyflogeion yn cael eu gwobrwyo'n deg ac yn wrthrychol, yn unol ag anghenion gwasanaeth y Cyngor a bod y broses yn agored ac yn dryloyw. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2022 (Cofnod Rhif C814).

Nododd y cyfeiriad fod y Polisi Cyflog wedi'i ddatblygu'n raddol ers 2012 i ymgorffori'r canlynol;

- Canllawiau gan Lywodraeth Cymru fel y'u cynhwysir yn y ddogfen "Atebolrwydd Cyflog mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru" fel y'i diweddarwyd ym mis Ionawr 2016.
- Newidiadau fel y'u pennir gan Reoliadau Rheolau Sefydlog Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2014 a ddaeth i rym o 1 Gorffennaf 2014.
- Gwnaed newidiadau fel y'u pennir gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 i sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflog Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Neddf Lleoliaeth 2011) ar ôl ymgynghori â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- Roedd Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021 wedi'i hystyried yn rhan o'r Datganiad Polisi Cyflog blynyddol.
- Diwygiadau angenrheidiol o ganlyniad i newidiadau i strwythur uwch reolwyr y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo'r Polisi Cyflog sydd ynghlwm wrth yr adroddiad i'r Cabinet ar 14 Chwefror 2022, Cofnod Rhif C814.

### Y rheswm dros y penderfyniad

I ymateb i'r gofyniad cyfreithiol dan y Ddeddf Lleoliaeth ac i fod yn agored ac yn atebol o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn gwobrwyo ei staff.

## 902 CYNLLUN DEISEBAU DRAFFT BRO MORGANNWG (CYF) –

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Deisebau Drafft Bro Morgannwg yn unol â'r ddyletswydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Gosododd Adran 42 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddyletswydd gyfreithiol ar brif Gynghorau yng Nghymru i lunio a chyhoeddi cynllun deisebau yn nodi sut y byddai'r Cyngor yn ymdrin â deisebau ac yn ymateb iddynt, gan gynnwys deisebau electronig (e-ddeisebau).

Roedd dyletswydd i'r cynllun deisebau nodi:

- (a) sut y gellir cyflwyno deiseb i'r Cyngor;
- (b) sut ac erbyn pryd y byddai'r Cyngor yn cydnabod derbyn deiseb;

- (c) y camau y gall y Cyngor eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb a ddaw i law;
- (d) yr amgylchiadau (os o gwbl) lle na chaiff y Cyngor gymryd unrhyw gamau pellach mewn ymateb i ddeiseb; a
- (e) sut ac erbyn pryd y byddai'r Cyngor yn darparu ei ymateb i ddeiseb i'r sawl a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd.

Roedd hefyd angen cyhoeddi a gweithredu'r cynllun deisebau newydd erbyn 5 Mai 2022.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo Cynllun Deisebau Drafft Bro Morgannwg yn Atodiad 1 yr adroddiad i'r Cabinet ar 14 Chwefror 2022, Cofnod Rhif C817 i fod ar waith o 5 Mai, 2022 ymlaen a'i ymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

### Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## 903 CYNIGION TERFYNOL AR GYFER CYLLIDEB REFENIW 2022/23 (CYF) –

Cyflwynodd yr Arweinydd y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 a chyfeiriodd yr Aelodau at y wybodaeth atodol a ddosbarthwyd yn flaenorol a oedd yn ofynnol oherwydd y £4000 ychwanegol a dderbyniwyd drwy Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru. Roedd hyn wedi'i ymgorffori yn y gyllideb arfaethedig a oedd yn parhau'n gyllideb wedi'i mantoli.

Atgoffodd yr Aelodau fod y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb refeniw 2022/23 wedi'u cyflwyno i'r Cabinet ar 22 Tachwedd 2022. Bryd hynny, nid oedd y Cyngor wedi derbyn hysbysiad o'r setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, modelwyd senarios amrywiol o ran lefel y setliad a chynnydd posibl yn y Dreth Gyngor. Yn seiliedig ar y tybiaethau hynny, nododd yr Arweinydd ddiffyg o hyd at £27m o bosibl yn y gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Dywedodd mai'r bwriad gwreiddiol oedd tynnu £1,000,000 i lawr, ond byddai hynny bellach yn £4000 neu lai.

Gan gyfeirio at yr oedi a'r amseriad o ran gwneud y wybodaeth ar gael mewn perthynas â'r setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru, roedd yn falch bod y Cyngor wedi cael cynnydd pennawd o 10.51% a gan ystyried yr addasiadau, cynnydd o £17.833m a oedd yn 10.64% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol gan gynnwys y £4000 ychwanegol. Wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol, roedd wedi ystyried bod y broses o baratoi cynigion y gyllideb yn un o'r rhai anoddaf y bu'n rhaid iddo ymdrin â hi yng nghyd-destun ariannu meysydd penodol, gan gyfeirio at y cyflog byw cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol ac arian ar gyfer priffyrdd, a arweiniodd at y Cabinet at ohirio ystyried ei gynigion terfynol tan 28 Chwefror 2022.

Cadarnhaodd fod y gyllideb arfaethedig yn darparu arian tuag at gwrdd â rhai o'r pwysau cost sy'n wynebu'r Cyngor sef tua £16m a oedd wedi gostwng o tua £28m. Yn ogystal, byddai'r Gyllideb arfaethedig hefyd yn gosod targed effeithlonrwydd o £500k ar gyfer 2022/23 a byddai'n cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor fel y nodir yn Atodiad C adroddiad y Cabinet. Felly, cynigiwyd y dylid pennu cyfradd Band D y Dreth Gyngor ar £1396.30, sef cynnydd o 2.9% ar gyfer 2022/23. Atgoffodd yr Aelodau fod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol yn dangos cynnydd posibl o 3.9%. Ar yr adeg y cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y gyllideb, roedd cyfradd chwyddiant y



mynegai prisiau defnyddwyr (MPD) ar 3.2%, ers hynny roedd wedi cynyddu'n raddol i'r gyfradd bresennol o 5.5%. Roedd hyn wedi golygu bod hyn wedi cael effaith ganlyniadol o ran y cynnydd mewn costau yr oedd angen mynd i'r afael ag ef ac roedd o'r farn bod y cynigion ar gyfer y gyllideb yn rhesymol yng nghyd-destun yr uchod. Cyfeiriodd hefyd at gyfraddau dangosol y setliad, y rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod iddo amdanynt ar gyfer y cyfnod 2024/25 a phwysleisiodd mai dim ond dangosol oedd y rhain a gallent fod yn is.

O ran cynnydd mewn cyflog, roedd rhai tybiaethau wedi'u gwneud o ystyried y ffaith bod dyfarniadau cyflog i'r rheiny nad ydynt yn addysgu yn dal i fod yn destun trafodaethau.

O ran Ysgolion, ni fyddai'r cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddod o hyd i unrhyw arbedion ac roedd yn falch o gadarnhau y byddai'r gyllideb yn parhau i ariannu ysgolion ar £1.2M uwchlaw eu Hasesiad Wedi'i Seilio ar Ddangosyddion

O ran y Gwasanaethau Cymdeithasol, roedd yn ymwybodol o'r pwysau parhaus ar y gwasanaeth hwn o ganlyniad i gostau cynyddol yn y sector annibynnol a'r galw cynyddol am wasanaethau i gefnogi'r boblogaeth sy'n heneiddio yn y Fro. Roedd y gyllideb hon felly'n darparu arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian tuag at weithredu talu ar gyfradd y Cyflog Byw Gwirioneddol (CBG) i staff Gofal Cymdeithasol sef £9.90 ar gyfer 2022/23. Roedd arian ar gyfer yr ymrwymiad hwn wedi'i gynnwys. Gan fod yr ymrwymiad hwn yn ymwneud â darparwyr allanol, roedd yn gyfrifiad cymhleth gan fod y darlun o ran cyflog yn gymysg ar draws y Fro. Roedd ADSS Cymru wedi cynnig cyfrifiad ar gyfer y Fro a oedd yn dangos mai cost ariannu darparwyr i dalu ar gyfradd y CBG tra'n cynnal gwahaniaethau oedd £2.12m. Dangosodd y wybodaeth hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi £1.42m ar gyfer hyn yn rhan o'r setliad a oedd yn ddiffyg ariannol o £700k. O ran pwysau cost yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, nododd fod angen creu capasiti parhaus i ymateb i lefel uwch o angen. Cynigiwyd bod y pwysau sy'n weddill yn cael eu hariannu drwy raglen gyllidebol a oedd yn defnyddio'r balansau a gronnwyd yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol gan leihau'r swm a dynnir i lawr bob blwyddyn fel y nodir yn adroddiad y Cabinet.

Gan droi ei sylw at Wasanaeth yr Amgylchedd a Thai, adroddwyd am bwysau cost sylweddol yn y flwyddyn ariannol bresennol a byddai'r cynigion ar gyfer y gyllideb yn mynd i'r afael â'r rheiny.

Gan gyfeirio at ddiffyg posibl mewn arian yn y dyfodol, £15.7m o bosibl, pwysleisiodd bwysigrwydd diogelu sylfaen bresennol y Dreth Gyngor a chyfeiriodd at y risgiau i'r Cyngor symud ymlaen pe na bai'n gwneud hynny. Byddai peidio â chynyddu cyfradd bresennol y Dreth Gyngor fel y'i cynigiwyd yn golygu y byddai'n rhaid i'r Cyngor wneud cynnydd uwch yn y flwyddyn ganlynol er mwyn cynnal ei lefel sylfaenol.

Gan gyfeirio at y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor ynghyd â'r defnydd tebygol o'r rhain yn y blynyddoedd i ddod, nododd yr amcangyfrifwyd y byddai lefel y cronfeydd wrth gefn yn gostwng £39.133m i £45.855m rhwng 31 Mawrth 2021 a 31 Mawrth 2025.

Amcangyfrifir mai £15.2m fyddai lefel Cronfa Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor ar 1 Ebrill 2022. Cytunwyd y byddai £4m yn cael ei drosglwyddo i Gronfa'r Cyngor ar gam cychwynnol y gyllideb a chynigiwyd y byddai £1m yn cael ei ddefnyddio yn ystod 2022/23 i ariannu'r gyllideb refeniw gyda £500k arall yn cael ei ddefnyddio yn 2023/24. Byddai £2.696m o Gronfa'r Cyngor yn cael ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau yn y

rhaglen gyfalaf yn ystod 2022/23 a byddai £849k hefyd yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Wrth Gefn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff o Gronfa'r Cyngor ar gyfer cynllun parcio'r Fflyd Rheoli Gwastraff.

Er nad oes gofyniad penodol ar gyfer y lefel ofynnol ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cronfa'r Cyngor, defnyddiodd rhai sylwebwyr 5% o'r gyllideb net yn ganllaw. I'r Cyngor roedd hyn tua £13.6m ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o ystyried y dull darbodus a gymerodd y Cyngor o ran cronfeydd wrth gefn penodol, cynigiwyd mai £10m ddylai fod y lefel ofynnol ar gyfer y gronfa wrth gefn hon. Mae manylion y cronfeydd wrth gefn i'w gweld yn Atodiad F adroddiad y Cabinet.

Wrth grynhoi, atgoffodd yr Aelodau y byddai'r arian ychwanegol yr oedd y Cyngor wedi'i gael drwy'r Gronfa Caledi Covid yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.

O ganlyniad, byddai'r gyllideb arfaethedig yn pennu cyllideb referniw net o £272.554m ar gyfer 2022/23 a fyddai'n arwain at gynnydd o 2.9% yn y Dreth Gyngor.

Cynigiodd yr Arweinydd y Cynnig canlynol:

(1) Pennu'r gyllideb ar gyfer 2022/23 ar £272.558 miliwn gan gynnwys darpariaeth o £290 mil ar gyfer rhyddhad ardrethi yn ôl disgrisiwn i siopau gwledig a swyddfeydd post a sefydliadau elusennol.

(2) Cymeradwyo'r cyllidebau ar gyfer 2022/23 fel y nodir yn Atodiad B ac yn y tabl canlynol:

	£000
Ysgolion	104,953
Strategaeth, Diwylliant, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau	8,956
Anghenion Dysgu Ychwanegol	3,334
Safonau a Darpariaeth	3,547
Swyddfa'r Cyfarwyddwr	242
Plant a Phobl Ifanc	18,581
Gwasanaethau Oedolion	53,816
Rheoli Adnoddau a Diogelu	7,742
Gwasanaeth Troseddau Ieuencid	730
Gwasanaethau Trafnidiaeth a Chymdogaeth	28,190
Gwasanaethau Adeiladau	0
Gwasanaethau Rheoliadol	2,103
Tai Cronfa'r Cyngor	1,444
Adnoddau	983
Budd-daliadau Tai	692
Adfywio	2,419
Rheoli Datblygiadau	1,300
Tai Preifat	413

Polisi Cyffredinol	34,109
Defnyddio Arian Wrth Gefn	(996)
Cyfanswm	272,558

(3) Cymeradwyo'r argymhellion ynghylch Twf Net ar gyfer 2022/23 fel y'u nodir yn Atodiad C a'r arbedion effeithlonrwydd a nodir ym mharagraff 2.6.

(4) Cymeradwyo'r adroddiad drafft arfaethedig ar y Gyllideb Addysg a'r Asesiad Wedi'i Seilio ar Ddangosyddion yn Atodiad A a bod y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn gwneud trefniadau iddo gael ei anfon i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion.

Cafodd hyn ei secondio'n briodol gan y Dirprwy Arweinydd.

Croesawodd y Cynghorydd Carroll y setliad refeniw terfynol a oedd yn gyfanswm o £186.015m, a oedd yn gynydd o bron i £18m ac o ran canran, cynnydd o 10.64%.

Gan gyfeirio at gyllid allanol a oedd dim ond yn rhan o'r gyllideb, yr elfen sy'n weddill a godir drwy'r Dreth Gyngor a gan nodi setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyngor, roedd y Cynghorydd Carroll o'r farn ei bod yn bwysig edrych yn ôl ar gynyddiadau yn y Dreth Gyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor yn y blynyddoedd blaenorol. Cyfeiriodd at gyfnod Mawrth 2021 pan oedd chwyddiant yn 0.7% a phan gynyddodd y Dreth Gyngor 3.9% a'r flwyddyn flaenorol 2020 pan gymeradwywyd cynnydd o 4.9%. Roedd o'r farn bod y blynyddoedd hyn o gynydd yn y dreth gyngor a oedd yn uwch na chwyddiant wedi rhoi pwysau sylweddol ar bobl sy'n gweithio'n galed ledled Bro Morgannwg yn ystod y cyfnod hwn. Nododd hefyd y cynigion a gynhwyswyd i drosglwyddo £4.2m i gronfeydd wrth gefn y Cyngor, a fyddai'n mynd â chronfa'r Cyngor i £15.219m a chronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn y cannoedd o filoedd. Er gwaethaf hyn, cynigiwyd cynnydd pellach o 2.9%. Er ei fod yn derbyn bod hyn yn is na chyfradd chwyddiant, roedd yn dal i fod yn gynydd sylweddol ar adeg o galedi economaidd eithriadol ac, os cytunir arno, heno byddai'r 2.9% hwn yn codi £2.4m yn ychwanegol, llai na'r swm a oedd yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Byddai hyn yn golygu bod y Dreth Gyngor ar eiddo Band D ym Mro Morgannwg tua £1400 y flwyddyn. Roedd yn ymwybodol bod cynghorau eraill ledled Cymru yn rhewi'r dreth gyngor, a chyfeiriodd at Gastell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, ac o ystyried sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor, credai ei fod yn rhywbeth y dylai'r Weinyddiaeth fod yn ei wneud. Ef oedd y cyntaf i alw am gallineb, ond o ystyried cyllid y Cyngor, byddai hyn yn caniatáu i rewi gael ei dderbyn er nad oedd yn rhywbeth y gellid ei wneud bob blwyddyn. Wedi hynny, cynigiodd y Cynghorydd Carroll y diwygiad canlynol:

Bod £2.4m yn cael ei drosglwyddo o gronfeydd wrth gefn Cronfa Gyffredinol y Cyngor i'r gyllideb Refeniw sylfaenol i bennu cynnydd o 0% yn y dreth gyngor.

Eiliwyd y diwygiad yn briodol gan y Cynghorydd Bailey.

Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson y byddai ei Grŵp yn cefnogi'r diwygiad ond roedd yn synnu bod y Grŵp Ceidwadol yn cyflwyno ei hun fel plaid treth isel. Atgoffodd yr Aelodau y byddent yn talu mwy mewn Yswiriant Gwladol yn ystod yr wythnosau nesaf a byddai rhai preswylwyr yn wynebu anawsterau oherwydd bod y clo triphlyg ar bensiynau wedi'i ddileu.

Roedd o'r farn bod diwygiad y Grwpiau Ceidwadol yn eironig, ond cydnabu fod y pwyntiau a wnaethpwyd yn debyg i'r pwyntiau yr oedd wedi'u codi ynghylch llawer o

wahanol ddadleuon ar y gyllideb yn y gorffennol. Hon oedd ei ddegfed gyllideb ac roedd wedi gwneud ei orau i sicrhau bod Plaid Cymru wedi bod yn wrthblaid adeiladol drwy gymryd rhan yn y broses, gwrandao ar sesiynau briffio a gofyn cwestiynau.

Ei brif bryder oedd bod y Cyngor yn gwneud yn well nag yr oedd yn ei feddwl yn wreiddiol gyda chynnydd o £5.5m mewn incwm refeniw. Tra roedd preswylwyr yn wynebu argyfwng costau byw gyda chwyddiant mewn biliau siopa, treth geidwadol ar gyflogau i'r rheiny mewn gwaith a chynnydd is na chwyddiant mewn budd-daliadau a phensiynau ac roedd pobl yn gwario mwy ac yn cael llai. Roedd hyn cyn y cynnydd sylweddol mewn biliau ynni. Cyfeiriodd at y cytundeb a wnaed yng Nghyngor Tref y Barri lle'r oedd y tair plaid wleidyddol wedi cytuno i beidio â chynnyddu ei braesept ac ni allai, yn ddiwyll, gefnogi cynnydd yn nhreth gyngor y Fro ar hyn o bryd.

Roedd yn werth nodi mai'r Cyngor oedd â'r bedwaredd gronfa wrth gefn ddefnyddiadwy uchaf yng Nghymru, sef £92m, cynnydd o £9m ar y flwyddyn flaenorol. Nid oedd y swm hwn yn adlewyrchu'r holl gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, sef tua £125 miliwn. Roedd hefyd yn eironig bod gan Gyngor a reolir gan Lafur geidwadaeth ariannol, gan fod yn rhy ofalus. Nid oedd y Cyngor mewn sefyllfa wan wrth iddo ddod allan o'r pandemig yn ariannol ac o ganlyniad, teimlai y dylai'r Cyngor fod yn darparu gwasanaethau heb gost mwy i'w breswylwyr pan oedd cynifer o bethau eraill a oedd yn effeithio arnynt.

Ategodd y Cynghorydd Bailey sylwadau arweinydd ei grŵp (y Cynghorydd Carroll). Roedd o'r farn y byddai'r cynnydd arfaethedig yn uwch na'r cynnydd mewn cyflog ar gyfer bron pob sector yn y wlad gyda'r Cyngor yn cael cynnydd yn ei setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru sef 10.6%. Roedd yn rhyfeddu nad oedd y cyfarfod yn unfrydol o blaid rhewi'r dreth gyngor. Byddai'r defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn ar sail untro yn rhoi rhywfaint o ryddhad i'r pwysau economaidd sy'n wynebu preswylwyr y Fro. Roedd o'r farn ei bod yn anodd cyfiawnhau unrhyw gynnydd pan oedd arweinyddiaeth y Cyngor wedi dod o hyd i arian ar gyfer cyflogau uwch swyddogion ychwanegol.

Galwodd y Cynghorydd Bailey ar y Weinyddiaeth i drosglwyddo £2.4m o'i chronfeydd wrth gefn i'r gyllideb Refeniw sylfaenol er mwyn caniatáu rhewi'r Dreth Gyngor unwaith. Gobeithiai y byddai pob Aelod yn cefnogi'r diwygiad.

Nododd y Cynghorydd John y byddai'n cefnogi'r cynigion ar gyfer y gyllideb gan gyfeirio at bwysau cost sy'n wynebu'r Cyngor yn benodol, y rheiny sy'n effeithio'n sylweddol ar ofal cymdeithasol oedolion. Cyfeiriodd hefyd at faterion sy'n effeithio ar reoli gwastraff, a dywedodd fod Arweinydd y Cyngor eisoes wedi tynnu sylw atynt yn gynharach yn y drafodaeth. Roedd yn deall y sefyllfa gan gynnwys pwysau economaidd a chwyddiant eraill sy'n effeithio ar breswylwyr. Roedd hefyd yn ymwybodol o oblygiadau anhysbys yr angen i gynnig cymorth i ffoaduriaid sy'n ceisio diogelwch o'r gwrthdaro yn Wcráin. Ni chafodd ei synnu gan ddiwygiad y Grŵp Ceidwadol gan fod etholiad ar y gorwel i bennu cynnydd o ddim canran fel yr oeddent wedi'i wneud mewn blynyddoedd etholiad blaenorol. Atgoffodd y Grŵp Ceidwadol yn 2019 na allent gytuno ymysg ei gilydd ar gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno a arweiniodd at ffurfio'r glymblaid bresennol i atal y Cyngor rhag cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn pryderu y gallai methiant i bennu cynnydd yn y Dreth Gyngor fel y'i cynigiwyd arwain at y posibilrwydd o gynyddu'r Dreth Gyngor tua 8% yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson gan gytuno â sylwadau'r Cynghorydd John at y pwysau sy'n wynebu Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ac atgoffodd yr Aelodau

mai ar gyfer darparu rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor oedd y cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd gan y Cyngor a dywedodd y byddai'r gwaith o ddarparu'r rhaglen hon yn gofyn am ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn hynny yn y dyfodol. Nid oedd yn derbyn y pwyntiau a oedd yn cael eu gwneud gan Aelodau'r gwrthbleidiau bod y Cyngor yn gwneud elw gan nad oeddent yn gallu gwneud hynny. Roedd amrywiannau ffafriol o un flwyddyn i'r llall yn caniatáu i arian gael ei roi mewn cronfeydd wrth gefn a oedd i'w groesawu. Roedd gan y Cyngor hanes da o ran ei berfformiad wrth gasglu'r Dreth Gyngor a chefnogodd y cynigion a oedd mewn gwirionedd yn is na chwyddiant cyflog o 5.5%. Roedd yn bwysig peidio â dinistrio sylfaen y dreth gyngor yn awr dim ond i wynebu'r angen i'w gynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd dilynol. Dywedodd y byddai'n cefnogi'r cynigion ar gyfer y gyllideb.

Ystyriodd y Cynghorydd Charles a oedd yn dymuno cefnogi ei chydweithwyr y Cynghorwyr Carroll a Bailey fod unrhyw gynnydd yn yr hinsawdd bresennol lle'r oedd biliau ynni, prisiau bwyd a thanwydd yn cynyddu bob dydd, yn enwedig i'r henoed a'r rheiny llai cefnog yn ddiangen ac yn greulon a byddai'n cefnogi'r diwygiad.

Dywedodd y Cynghorydd John Thomas, gan gyfeirio at sylwadau'r Cynghorydd Carroll a'i gydweithwyr grŵp, nad oedd yn credu eu bod wedi deall yn iawn yr hyn yr oedd Arweinydd y Cyngor yn ei ddweud am y gyllideb sylfaenol a goblygiadau tynnu £2.4m o gronfeydd wrth gefn. Byddai'n cael effaith £12m dros flwyddyn nesaf y Cyngor. Atgoffodd y Cynghorwyr Carroll a Bailey o'u safbwynt a wnaed dros y blynyddoedd blaenorol ar y mater o bennu'r Dreth Gyngor, sef y byddent wedi pennu'r cynnydd treth isaf mewn unrhyw gyngor yng Nghymru a fyddai'n eu cynorthwyo wrth ymgyrchu. Pe bai'r Cyngor wedi gwrandao ar y galwadau hynny ac wedi cytuno i wneud hynny dros y 5 mlynedd diwethaf roedd yn debygol y byddai'r Cyngor yn edrych ar ddiffyg o £25m yn ei gyllideb sylfaenol gydag effaith sylweddol ar gronfeydd wrth gefn y Cyngor ac felly dywedodd y byddai'n cefnogi cynigion Arweinydd y Cyngor ar gyfer y gyllideb.

Wrth gefnogi diwygiad y Cynghorydd Carroll, awgrymodd y Cynghorydd Robertson y dylid cadw'r amgylchiadau eithriadol sy'n wynebu llawer o breswylwyr mewn cof wrth ystyried cynyddu'r Dreth Gyngor. Roedd yn amlwg iddo fod llawer yn cael trafferth gyda'r costau cynyddol mewn prisiau ynni. Cyfeiriodd at Brosiect Sero, effaith y pandemig a chyflwr ariannol ansicr canlyniadol preswylwyr ac felly teimlai y dylai'r Cyngor wneud popeth o fewn ei allu i helpu ei breswylwyr drwy bennu cynnydd o 0%.

Nododd y Cynghorydd King fod yr Arweinydd wedi dechrau'r cyfarfod drwy dynnu sylw at drafferthion pobl Wcráin a bod pawb yn unedig yn eu cefnogaeth i'r argyfwng hwnnw gyda'r posibilrwydd o groesawu ffoaduriaid. Er mwyn gwneud hynny, roedd angen capasiti ariannol ar y Cyngor. Roedd hefyd yn ymddangos iddo fod rhai Aelodau wedi anghofio nad oedd y cynnydd mewn ynni yn ymwneud o gwbl â Phrosiect Sero a'i fod yn ymwneud yn sylweddol â phrisiau ynni byd-eang, yn enwedig nwy a oedd yn cynyddu'n fawr ymhell cyn i'r rhyfel yn Wcráin ddechrau. Roedd y Cyngor ei hun yn wynebu cynnydd yn ei fil ynni i wresogi ysgolion a chartrefi gofal. Roedd hefyd yn pryderu y byddai'r cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn dirwyn i ben wrth i gyfyngiadau'r cyfnod cloi gael eu llacio, ond roedd her o hyd i fynd i'r afael â nifer y bobl ddigartref yn y Fro. Teimlai fod y Cynghorydd John Thomas yn ei sylwadau wedi gwneud pwynt arbennig o berthnasol ynglŷn â'r gyllideb sylfaenol. Gallai'r Cyngor bennu cyllideb a chynnydd o 0% yn y dreth Gyngor i ennill pleidleisiau, ond byddai hynny'n gadael y Cyngor yn agored i niwed yn y dyfodol ac yn ei farn ef byddai'n gwneud anghymwynas enfawr nid yn unig â phobl y Fro, ac yn arbennig â phobl agored

i niwed y Fro, ond hefyd â staff y Cyngor a oedd wedi gwasanaethu'r Cyngor yn wych dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedodd na fyddai'n cefnogi'r diwygiad.

Dywedodd y Cynghorydd Neil Thomas, tra bod sylwadau'r Cynghorydd Charles yn wir, fod y Cyngor hefyd yn destun yr un cynnydd mewn costau o ran defnyddio ynni, costau deunyddiau a chyflogau. Gan gyfeirio at ganlyniadau cynnydd o 0% fel y nodwyd yn gynharach yn y drafodaeth, cyfeiriwyd at Gyngor arall nad oedd wedi cynyddu'r Dreth Gyngor ers rhai blynyddoedd, roedd wedi cymryd blynyddoedd lawer iddo gael cyllideb wedi'i mantoli eto wedi gorfod cynyddu'r Dreth Gyngor yn sylweddol i wneud hynny. Roedd o'r farn bod y diwygiad yn oportiwnistaidd ac yn annidwyll. Atgoffodd yr Aelodau fod y Cyngor wedi cael ei gydnabod am ei gallineb ariannol a'i fod yn cael ei ystyried fel y cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru, yn ôl y Swyddfa Archwilio. Dywedodd y byddai'n gwrthwynebu'r diwygiad.

Cafodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Burnett, deimlad o dejavu o ystyried diwygiad y Cynghorydd Carroll. Yn ystod y tair blynedd flaenorol cafwyd ymgais i ysbeilio cronfeydd wrth gefn i leihau'r Dreth Gyngor, roedd hi'n meddwl tybed ble fyddai'r Cyngor yn awr pe bai wedi cytuno i wneud hynny o ran ei sefyllfa ariannol. Tynnodd sylw at y ffaith y gallai'r Cyngor, oherwydd ei sefyllfa ariannol gref, ymateb yn syth i'r pandemig ac roedd hyn cyn yr oedd yn hysbys y byddai arian caledi gan Lywodraeth Cymru ar gael. Roedd yr arian hwnnw wedi galluogi'r Cyngor i brynu cyfarpar diogelu personol ychwanegol ac i gymryd camau eraill yn ystod y pandemig oherwydd bod ganddo'r cronfeydd wrth gefn. Atgoffodd yr Aelodau bod y cronfeydd wrth gefn fel y nodir yn Atodiad F adroddiad gwreiddiol y Cabinet yn nodi'n glir yr hyn y byddai'r cronfeydd wrth gefn hynny'n cael eu defnyddio ar ei gyfer mewn perthynas â phrosiectau hysbys. Roedd yn debygol y byddai lefel y cronfeydd wrth gefn yn haneru dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r prosiectau gael eu cyflawni ac oherwydd yr angen i neilltuo arian i adeiladu ysgolion newydd ac ar gyfer pwysau'r gaeaf.

Cydnabu fod pawb yn byw mewn amgylchiadau eithriadol, pwynt a wnaed eisoes yn gynharach gan yr Arweinydd ar ddechrau'r drafodaeth. Roedd yn annhebygol na fyddai'r sefyllfa'n gwella yn y dyfodol agos. Roedd y cronfeydd wrth gefn yn galluogi'r Cyngor i gamu i'r adwy pan oedd angen, ac roedd y llywodraeth leol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r rheiny mwyaf agored i niwed yn y Fro. Pe bai'r gyllideb yn cael ei chytuno fel y'i cynigiwyd, byddai'r Cyngor yn dal i wynebu heriau.

Teimlai ei bod yn iawn i'r Aelodau sôn am ddileu'r clo triphlyg ar bensiynau a chyfeiriodd at ddileu'r cynnydd o £20 yr wythnos mewn Credyd Cynhwysol gan ei bod yn werth nodi bod costau'r Cyngor hefyd wedi cynyddu ac y byddai cynnydd o 10% mewn Yswiriant Gwladol yn taro'r Cyngor cyn bo hir. Byddai hyn yn costio £1m y flwyddyn yn ychwanegol i'r Cyngor. Ar y sail honno, nid oedd yn petruso cefnogi'r gyllideb arfaethedig. Ystyriodd yr heriau sy'n wynebu preswylwyr, ond roedd y rhain yn gofyn am gydbwyso yn erbyn yr angen i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da iddynt a sicrhau nad oedd neb o gwbl yn y Fro yn cael ei adael ar ôl. Dywedodd y byddai'n pleidleisio yn erbyn y diwygiad.

Ategodd y Cynghorydd Perkes y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Burnett a dywedodd ei bod yn falch o fod yn Gynghorydd a'i bod yn deall yn iawn effaith economaidd y sefyllfa bresennol ar etholwyr ei hward. Nododd na fyddai'n cefnogi'r diwygiad ac roedd yn werth nodi bod rhai Aelodau'n darlithio'r Weinyddiaeth ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor pan oedd argyfwng costau byw, a grëwyd gan Lywodraeth yn San Steffan nad oedd yn barod i dorri treth ar filiau ynni ac a oedd yn

gwrthod codi treth annisgwyl ar elw cwmnïau ynni a wnaed o'r argyfwng ynni. Roedd gan y Cyngor un o'r trethi cyngor isaf yng Nghymru ac fe oedd y cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru. Roedd angen 2.9% er mwyn cynnal lefel y gwasanaethau.

Ystyriodd y Cyngorydd Driscoll y feirniadaeth o ragrith Llywodraeth San Steffan o gofio ei bod wedi ariannu'r Cynllun Ffyrlo ac wedi rhoi arian i Lywodraeth Cymru i ddelio â'r pandemig. Roedd o'r farn bod cynnydd o 0% yn rhwystr bach iawn yng ngallu'r Cyngor i godi arian. Roedd hefyd yn feirniadol o honiadau'r Weinyddiaeth y byddai'r diwygiad i bennu cynnydd o 0% mor niweidiol ac yn ymgais sinigaidd i ennill pleidleisiau yn yr etholiadau sydd i ddod, pan gytunodd cydweithwyr Llafur yng Nghyngor Phen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Castell-nedd a Phort Talbot i 0% yn y flwyddyn i ddod ar gyfer y Dreth Gyngor.

Ailadroddodd yr Arweinydd lawer o'i sylwadau cynharach ac roedd o'r farn bod y diwygiad arfaethedig yn fyrbwyll. Roedd y gyllideb arfaethedig a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn gyfaddawd yng nghyd-destun yr heriau amrywiol sy'n wynebu'r Cyngor. Croesawyd y setliad gan Lywodraeth Cymru, ond nid oedd hyn yn mynd i'r afael â cholli arian o ganlyniad i lymder a orfodwyd ar lywodraeth leol dros y deng mlynedd diwethaf. Atgoffodd yr holl Aelodau nad oedd unrhyw sicrwydd y byddid yn cael setliadau ariannol tebyg gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Atgoffodd yr Aelodau ymhellach fod y gyllideb arfaethedig ymhell islaw'r Asesiad Gwario Safonol (AGS) o £278m a bod Band D y Dreth Gyngor yn y Fro yn is na chyfartaledd Cymru. Dywedodd nad oedd y Cyngor yn gwneud elw oddi ar ei breswylwyr. Roedd yr adroddiad yn ei gwneud yn glir sut a pham yr oedd gan y Cyngor warged a sut y cynigiwyd defnyddio'r gwarged hwnnw. Soniodd hefyd am y pwysau chwyddiant sy'n effeithio ar wariant y Cyngor ar yr un pryd ag yr oedd y Cyngor yn diogelu Addysg a Gofal Cymdeithasol a chyfeiriodd at ddiffyg o £700k sy'n weddill o ran ariannu'r Cyflog Byw yn y sector gofal. Roedd gwasanaethau wedi derbyn £16m i fynd i'r afael â phwysau cost y bu'n rhaid delio â nhw. Roedd angen i swyddogion nodi £500k o arbedion effeithlonrwydd yn y flwyddyn ariannol i ddod. Ni dderbyniodd y gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol heb werthfawrogi'r goblygiadau i'r Cyngor yn ddiweddarach.

Ystyriodd yr Arweinydd y diwygiad i leihau cronfa wrth gefn Cronfa Gyffredinol y Cyngor drwy dynnu £2.4m allan i ddarparu cynnydd o 0% a fyddai'n gadael y Gronfa ar £7.7m, a oedd ymhell islaw'r trothwy o 5% a ystyriwyd yn briodol gan swyddog Adran 151 y Cyngor. Roedd o'r farn bod y penderfyniadau a wnaed gan Gyngorau Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd a Phort Talbot yn fyrbwyll, fodd bynnag, roedd yn ymwybodol bod Cyngor Sir y Fflint wedi gosod ei Dreth Gyngor ar 3.95%, Sir Gaerfyrddin tua 2.5% a Blaenau Gwent tua 4%.

Croesawodd y sylwadau a wnaed gan y Cyngorydd John Thomas a'r Cyngorydd Neil Thomas yn gynharach yn y drafodaeth.

Roedd o'r farn bod cynnydd arfaethedig o 2.9% yn y Dreth Gyngor yn rhesymol ac y byddai'n pleidleisio yn erbyn y diwygiad.

Atgoffodd y Cyngorydd Gray yr Aelodau fod pawb wedi derbyn y pwysau cost yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu wrth iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgorau Craffu. Cyfeiriodd at newidiadau demograffig yn y boblogaeth a'r goblygiadau i wasanaethau cymdeithasol o ran gofynion ar y gwasanaeth. Roedd pob Aelod hefyd yn ymwybodol

iawn o'r goblygiadau parhaus i'r Cyngor o ganlyniad i'r pandemig a oedd yn annhebygol o fynd i ffwrdd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Felly, roedd o'r farn ei bod yn annoeth cytuno â'r diwygiad arfaethedig a chytunodd â sylwadau'r Arweinydd o ran lefelau'r cronfeydd wrth gefn a'u defnydd yn y dyfodol. Ni dderbyniodd sylwadau'r Cynghorydd Carroll fod cannoedd o filoedd o bunnoedd mewn cronfeydd wrth gefn. Nododd adroddiad gwreiddiol y Cabinet yn glir sut y byddai'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio a'u cyfeirio at raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'u bod yn rhannol wedi cael eu defnyddio i ddelio â'r pandemig fel y nododd y Dirprwy Arweinydd. Canran y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor oedd hanner y gyfradd chwyddiant bresennol.

Roedd o'r farn ei bod yn nodedig bod ymateb y Cyngor bob amser wedi canolbwyntio ar allu cyflawni ar gyfer ei breswylwyr, nid ar gyfer y balans banc. Roedd y cynigion ar gyfer y gyllideb yn ei farn ef yn gymesur ac yn ystyried yr holl bwysau cost yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu. Diolchodd i swyddogion perthnasol y Cyngor am baratoi'r adroddiad mewn amgylchiadau a oedd yn anodd eu rhagweld. Yn unol â hynny, ni allai ef na'i Grŵp gefnogi'r diwygiad.

Cynhaliwyd y Bleidlais a Gofnodwyd isod ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Carroll (a eiliwyd gan y Cynghorydd Bailey) i drosglwyddo £2.4m o'r cronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb sylfaenol ac na fydd cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23

<b>Aelodau</b>	<b>Canys</b>	<b>Yn Erbyn</b>	<b>Ymatal</b>
Julie Aviet		√	
Vincent Bailey	√		
Rhiannon Birch		√	
Jonathan Bird		√	
Bronwen Brooks		√	
Lis Burnett		√	
George Carroll	√		
Christine Cave	√		
Janice Charles	√		
Millie Collins	√		
Geoff Cox		√	
Robert Crowley	√		
Andrew R.T. Davies	√		
Pamela Drake		√	



Vince Driscoll	√		
Stewart Edwards	√		
Ben Gray		√	
Owen Griffiths	√		
Stephen Griffiths	√		
Sally Hanks		√	
Nic Hodges	√		
Hunter Jarvie		√	
Gwyn John		√	
Ian Johnson	√		
Gordon Kemp	√		
Peter King		√	
Kevin Mahoney	√		
Kathryn McCaffer		√	
Anne Moore		√	
Neil Moore		√	
Michael Morgan		√	
Jayne Norman		√	
Rachel Nugent-Finn	√		
Andrew Parker		√	
Bob Penrose	√		
Sandra Perkes		√	

Andrew Robertson	√		
Ruba Sivagnanam		√	
John Thomas		√	
Neil Thomas		√	
Steffan Wiliam	√		
Margaret Wilkinson		√	
Edward Williams		√	
Mark Wilson		√	
<b>CYFANSWM</b>	<b>19</b>	<b>25</b>	

Ni dderbyniwyd y diwygiad a gyiniwyd.

Cyfeiriodd yr Arweinydd wrth grynhoi at ei Gynnig gwreiddiol ac ailadroddodd ei sylwadau blaenorol mewn perthynas â cheisiadau pwysau cost y cytunwyd arnynt gan Weithgor y Gyllideb, yr oedd pob un ohonynt wedi'u cefnogi gan y pwyllgorau craffu.

Wrth ddiolch i'r Arweinydd am gyflwyno'r gyllideb a nodi sylwadau'r Arweinydd ar ba mor anodd fu'r broses, nododd y cynghorydd Dr Johnson y bu'r un mor anodd o safbwynt Aelod o'r wrthblaid. Teimlai nad oedd natur y broses wedi helpu gan gyfeirio at oedi a dryswch ynghylch yr arian a fyddai'n cael ei dderbyn mewn gwirionedd drwy San Steffan a Llywodraeth Cymru. Ar y cyfan, teimlai nad oedd yn ei gynorthwyo o gofio bod yr Aelodau, chwe mis ynghynt, wedi cael gwybod am fwch ariannu o £27m. Dyma oedd y broses dros y blynyddoedd blaenorol. Roedd wedi gwrthod y gyllideb arfaethedig yn y drafodaeth ar ddwy sail ac er bod y drafodaeth wedi bod yn ddiddorol iawn, anwybyddwyd ei bwyntiau. Gan gyfeirio at y defnydd o gronfeydd wrth gefn a oedd yn cael eu defnyddio, roedd yn amlwg nad oedd y rhain yn cael eu gwario o fewn y flwyddyn, yn hytrach roedd y rhain yn cael eu diogelu'n erbyn y rheiny a oedd yn cael eu gwario. Effaith hyn oedd cadw'r gyllideb yn is na'r hyn y byddai wedi bod yn y flwyddyn flaenorol. Roedd yr Arweinydd wedi dewis peidio â gwneud hynny bryd hynny, yn hytrach roedd wedi dewis cynyddu'r gyllideb sylfaenol ac yn ei dro gynyddu'r arian yr oedd preswylwyr lleol yn ei dalu. Gan gyfeirio at y ffigurau diweddaraf yn adroddiad y Cabinet, cafwyd elw refeniw yn ystod y flwyddyn neu £5.5m y gellid bod wedi'i ddefnyddio i leihau cynnydd yn y Dreth Gyngor. Derbyniodd fod angen dod o hyd i gydbwysedd rhwng yr hyn yr oedd preswylwyr yn ei dalu a ble'r oedd y Cyngor, ac nid oedd y cydbwysedd hwnnw'n iawn.

Mynegodd y Cynghorydd Dr Johnson bryder bod methiant wedi bod i ddefnyddio deddfwriaeth mewn perthynas â pherchnogaeth ail gartrefi a ddaeth i rym yn wreiddiol yn 2014 ac a fyddai wedi caniatáu i gyfradd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo o'r fath gael ei dyblu. Teimlai y gellid bod wedi defnyddio'r incwm ychwanegol i gefnogi gwasanaethau a stoc tai'r Cyngor. Roedd wedi codi'r mater ar sawl achlysur mewn

cyfarfodydd pwyllgorau craffu ac roedd wedi cael gwybod gan Swyddog Adran 151 blaenorol y Cyngor y byddai'n cael ei ystyried, ond roedd yn amlwg bod y Cyngor wedi penderfynu peidio â gwneud hynny.

Ni dderbyniodd y pwyntiau a wnaed yn flaenorol ynglŷn â chael cyfradd Treth Gyngor Band D isel oherwydd bod proffil tai'r Sir yn haenau uchaf y cyfraddau band. Felly, roedd o'r farn ei bod yn annidwyll awgrymu bod preswylwyr yn talu llai na chyfartaledd Cymru ar Fand D, gan nad dyma'r gyfradd dreth yr oedd y rhan fwyaf o breswylwyr yn ei thalu.

Cynhaliwyd y bleidlais a gofnodwyd isod ar Gynnig yr Arweinydd

<b>Aelodau</b>	<b>Canys</b>	<b>Yn Erbyn</b>	<b>Ymatal</b>
Julie Aviet	√		
Vincent Bailey		√	
Rhiannon Birch	√		
Jonathan Bird	√		
Bronwen Brooks	√		
Lis Burnett	√		
George Carroll		√	
Christine Cave		√	
Janice Charles		√	
Millie Collins		√	
Geoff Cox	√		
Robert Crowley		√	
Andrew R.T. Davies		√	
Pamela Drake	√		
Vince Driscoll		√	
Stewart Edwards		√	
Ben Gray	√		
Owen Griffiths		√	

Stephen Griffiths		√	
Sally Hanks	√		
Nic Hodges		√	
Hunter Jarvie	√		
Gwyn John	√		
Ian Johnson		√	
Gordon Kemp		√	
Peter King	√		
Kevin Mahoney		√	
Kathryn McCaffer	√		
Anne Moore	√		
Neil Moore	√		
Michael Morgan	√		
Jayne Norman	√		
Rachel Nugent-Finn		√	
Andrew Parker			
Bob Penrose		√	
Sandra Perkes	√		
Andrew Robertson		√	
Ruba Sivagnanam	√		
John Thomas	√		
Neil Thomas	√		

Steffan Wiliam		√	
Margaret Wilkinson	√		
Edward Williams	√		
Mark Wilson	√		
<b>CYFANSWM</b>	<b>24</b>	<b>19</b>	

DS. Oherwydd anawsterau technegol, nid oedd y Cynghorydd Parker yn gallu cymryd rhan yn y bleidlais ar y cynnig uchod.

Derbyniwyd y Cynnig ac wedyn

PENDERFYNWYD -

(1) Pennu'r gyllideb ar gyfer 2022/23 ar £272.558 miliwn gan gynnwys £290k ar gyfer rhyddhad ardrethi yn ôl disgrisiwn i siopau gwledig a swyddfeydd post a sefydliadau elusennol.

(2) Cymeradwyo'r cyllidebau ar gyfer 2022/23 fel y'u nodir yn Atodiad C yr adroddiad ac yn y tabl canlynol:

	<b>£000</b>
Ysgolion	104,953
Strategaeth, Diwylliant, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau	8,956
Anghenion Dysgu Ychwanegol	3,334
Safonau a Darpariaeth	3,547
Swyddfa'r Cyfarwyddwr	242
Plant a Phobl Ifanc	18,581
Gwasanaethau Oedolion	53,816
Rheoli Adnoddau a Diogelu	7,742
Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid	730
Gwasanaethau Trafnidiaeth a Chymdogaeth	28,190
Gwasanaethau Adeiladau	0
Gwasanaethau Rheoliadol	2,103
Tai Cyngor	1,444
Adnoddau	983
Budd-daliadau Tai	692
Adfywio	2,419
Rheoli Datblygiadau	1,300
Tai Preifat	413
Polisi Cyffredinol	34,109
Defnyddio Arian Wrth Gefn	(996)

(3) Cymeradwyo'r argymhellion ynghylch Twf Net ar gyfer 2022/23 fel y'u nodir yn Atodiad C a'r arbedion effeithlonrwydd a nodir ym mharagraff 2.42.

(4) Cymeradwyo'r adroddiad drafft arfaethedig ar y Gyllideb Addysg a'r Asesiad Wedi'i Seilio ar Ddangosyddion yn Atodiad A a bod y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn gwneud trefniadau iddo gael ei anfon i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion.

#### Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) I bennu cyllideb 2022/23 yn unol â gofynion statudol.

(2) I ddyrannu cyllidebau i wasanaethau.

(3) I leihau'r risg i wasanaethau ac i fantoli'r gyllideb.

(4) I gyflwyno'r adroddiad i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion.

#### 904 STRATEGAETH GYFALAF 202/232 A CHYNYGION CYFALAF TERFYNOL 2022/23 I 2026/27 (CYF) –

Tynnodd yr Arweinydd sylw at agweddau allweddol ar yr adroddiad a ystyriwyd yn wreiddiol gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2022. Nododd yr adroddiad y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2022/23 a'r cynigion Cyfalaf Terfynol ar gyfer 2022/23 i 2026/2026. Rhoddodd Atodiad 1 yr adroddiad fframwaith a oedd yn amlinellu sut y cyfrannodd gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys at ddarparu amcanion corfforaethol, ynghyd â throsolwg o sut y rheolwyd y risg gysylltiedig a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Ar ôl ystyried blaenoriaethau gwasanaeth a'r ariannu posibl sydd ar gael dros y 10 mlynedd nesaf, amcangyfrifodd yr Arweinydd y gallai'r bwlch ariannu fod oddeutu £12m. Byddai'r Strategaeth Gyfalaf yn cael ei diweddarau'n flynyddol a byddai'n esblygu dros y blynyddoedd i ddod. Byddai angen adolygu'r bwlch ariannu hwn yn rheolaidd. Nododd fod cynigion cychwynnol y Rhaglen Gyfalaf wedi'u cyflwyno i'r Cabinet ar 22 Tachwedd 2022. Bryd hynny, nid oedd y Cyngor wedi derbyn y Setliad Dros Dro ar gyfer 2022/23 felly nid oedd yn bosibl cyflwyno Rhaglen Gyfalaf ddrafft. Yn hytrach, cyflwynwyd yr holl geisiadau am arian i'r Cabinet er gwybodaeth a chyfeiriwyd yr adroddiad wedyn at Bwyllgorau Craffu ym mis Rhagfyr 2022. Ystyriwyd sylwadau'r Pwyllgorau Craffu wrth ddatblygu'r rhaglen bum mlynedd hon.

Nododd fod y Setliad Dros Dro gan Lywodraeth Cymru wedi dod i law ym mis Rhagfyr ac roedd y ffigurau hyn wedi llywio'r rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Roedd pob cais wedi'i flaenoriaethu o ran blaenoriaeth gorfforaethol, y risg i'r Awdurdod pe na bae'n cael ei ddatblygu a'r cyfraniad a wnaeth at feini prawf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol. Byddai'r rhaglen a nodir yn yr adroddiad yn cael ei hariannu drwy nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys arian Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru, derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o werthu asedau, cronfeydd wrth gefn a oedd wedi'u sefydlu at y diben hwnnw, arian Adran 106 neu fenthycia arian y bu'n rhaid ei ad-dalu drwy'r gyllideb refeniw.

Er mwyn cyflawni'r buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol sy'n ofynnol gan y Cyngor, cynigiwyd y dylid defnyddio £2.696m o gronfa wrth gefn Cronfa'r Cyngor i ariannu gwariant cyfalaf a throsglwyddo £849k i Gronfa Wrth Gefn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff o Gronfa'r Cyngor ar gyfer cynllun parcio'r Fflyd Rheoli Gwastraff.

Roedd y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2022/23 i 2026/27 wedi'i hatodi yn Atodiad 2 yr adroddiad gan ddangos cyfanswm gwariant o £85m yn 2022/23 a chyfanswm ar gyfer y rhaglen bum mlynedd o ychydig o dan £254m. Roedd y rhaglen yn cynnwys buddsoddiad sylweddol o £2.3m i roi wyneb newydd ar y ffyrdd yn y Sir, wedi'i ariannu'n rhannol gan grant Llywodraeth Cymru y mae'r Cyngor wedi'i ddyrannu'n rhannol i wella'r priffyrdd. Cyfanswm gwerth y rhaglen Band B ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif yw £43m rhwng 2022/23 a 2024/25 gyda chyllideb o bron i £16m yn 2022/23.

Byddai'r Cyngor yn derbyn £2.384m gan Lywodraeth Cymru tuag at Gynnal a Chadw Ysgolion. Nododd yr adroddiad hefyd y lefelau buddsoddi sydd eu hangen i gynnal safonau SATC, gwaith datblygu Gwasanaethau Gwastraff, cyfleusterau hamdden, arian ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl ac arian mewn perthynas â datblygu economaidd a thwristiaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson yn gyntaf ei fod yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gostwng ei lefel ariannu o ychydig dros £1m. Roedd ei gydweithwyr yn ward Baruc yn ddiolchgar o weld buddsoddiadau ym mharc sglefrio'r Cnap a lloches y Dwyrain ar Bromenâd Ynys y Barri. Ailadrodd ei sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol mewn perthynas â chymunedau dysgu cynaliadwy ac Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r angen i'r rhaglen Addysg Strategol gwmpasu 10 mlynedd yn hytrach na'r 5 mlynedd bresennol er ei fod yn cydnabod y byddai Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) drafft yn cael ei alinio yn y dyfodol i'r Strategaeth Gyfalaf a cheisiodd sicrydd i'r perwyl hwnnw.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Burnett at yr anawsterau oherwydd y gwahanol amserlenni i gyflawni'r alinio yr oedd y Cynghorydd Dr Johnson yn cyfeirio ato mewn perthynas â'r CSCA. Roedd yn falch bod y Weinyddiaeth wedi cyflawni rhaglen 5 mlynedd ar gyfer Addysg, ond wrth edrych ar y Gronfa Buddsoddi mewn Twf, hoffai ddatblygu rhaglen 10 mlynedd wrth symud ymlaen. Gan gyfeirio at ei dewis i fynd i'r afael â materion ar lefel strategol o ran adfywio cymunedau, cyfleusterau addysg a chyflogaeth teimlai fod angen dychwelyd at y cysyniad o adfywio trefi cyfan, a drafodwyd yn 2012, 2013. Roedd wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi'r iaith Gymraeg ac addysg Gymraeg a byddai hyn yn chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer y cymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu.

Cyfeiriodd hefyd at rannau eraill o'r Rhaglen Gyfalaf, cyflwyno 5 ysgol a allai fod wedi cynnwys Ysgol Gynradd y Glannau, ond roedd hyn wedi'i ohirio ond roedd bellach yn ôl ar y trywydd iawn. Fodd bynnag, nid oedd yn ymwneud ag adeiladu ysgolion newydd yn unig, roedd hefyd yn ymwneud â'r rhaglen dai a mynd i'r afael â digartrefedd yn y Sir a chyfeiriodd at lwyddiant y tai llety a ddatblygwyd yn Court Road, y Barri. Roedd wedi cynnal sgysiau gyda phreswylwyr ynghylch tai sefydlog i'r rheiny sy'n byw yn y sector rhent preifat gan gyfeirio at weithwyr allweddol a oedd wedi gorfod symud cartref ddwy neu dair gwaith yn ystod y pandemig ar ôl cael rhybudd. Roedd angen cael cartrefi sefydlog a dangos i bobl yng nghymunedau'r Fro eu bod yn gweithio'n galed i gyflawni'r rhain.

Roedd hefyd o'r farn ei bod yn bwysig cynllunio ymlaen llaw o ran gwaith cynnal a chadw mewn cymunedau gan gyfeirio at y cynllun ar gyfer Ynys y Barri a gwaith diweddar ym Mhromenâd a Phafiliwn Penarth.

#### PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2022/23 fel y'i nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- (2) Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf derfynol ar gyfer y blynyddoedd 2022/23 i 2026/27 fel y'i nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.
- (3) Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at Raglen Gwella Tai 2022/23 i 2026/27, i ddileu ohoni ac i drosglwyddo iddi neu ohoni fel y bo'n briodol.
- (4) Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at gyllidebau Adnewyddu Asedau 2022/23 i 2026/27, i ddileu ohonynt ac i drosglwyddo iddynt neu ohonynt fel y bo'n briodol.
- (5) Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at gynlluniau a ariennir gan A106, i ddileu ohonynt ac i drosglwyddo iddynt neu ohonynt yn amodol ag ymgynghoriad â'r Aelodau fel sy'n ofynnol dan y broses gyfredol.
- (6) Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at Gynlluniau Rheoli Ynni, i ddileu ohonynt ac i drosglwyddo iddynt neu ohonynt.
- (7) Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at gynlluniau'r Gronfa Adeiladu Cymunedau Cryf, i ddileu ohonynt ac i drosglwyddo iddynt neu ohonynt.
- (8) Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at raglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt), i ddileu ohoni ac i drosglwyddo iddi neu ohoni.
- (9) Cymeradwyo ailbroffilio'r Rhaglen Gwella Tai ar gyfer y blynyddoedd 2022/23 i 2026/27 fel y dangosir ym mharagraff 2.51 yr adroddiad.

#### Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) I gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2022/23.
- (2) I bennu a chymeradwyo rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol hyd at 2026/27.
- (3) Er mwyn gallu rheoli'r gyllideb Cyfalaf Tai'n effeithiol.
- (4) Er mwyn gallu rheoli'r cyllidebau Adnewyddu Asedau'n effeithiol.
- (5) Er mwyn gallu rheoli cynlluniau A106 yn effeithiol.



- (6) Er mwyn gallu rheoli Cynlluniau Rheoli Ynni'n effeithiol.
- (7) Er mwyn gallu rheoli'r Gronfa Adeiladu Cymunedau Cryfach yn effeithiol.
- (8) Er mwyn gallu rheoli'r rhaglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'n effeithiol.
- (9) I adlewyrchu'r rhaglen waith ar gyfer y Cynlluniau Gwella Tai.

#### 905 CYGION CYLLIDEB TERFYNOL Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT) 2022/23 (CYF) –

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad gerbron y Cyngor yn cyflwyno'r cynigion terfynol ar gyfer cyllideb 2022/2023 y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ac yn pennu'r rhenti a'r taliadau gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn rent i ddod yn dechrau ar 1 Ebrill, 2021.

Nododd yr adroddiad y cynigion terfynol ar gyfer cyllideb 2022/23 y CRT a'r rhenti a'r taliadau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Wrth bennu lefel y rhent ar gyfer 2022/23 roedd y Cyngor wedi sicrhau ei fod wedi cydymffurfio â'r Polisi ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021. Roedd uchafswm y cynnydd a ganiateir wedi'i osod ar gyfradd y MPD ym mis Medi 2021 sef 3.1%.

Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y pandemig a chadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi atal bandiau rhent targed ar gyfer 2022/23 gan roi monitro hunanardystio yn eu lle. Er mwyn cydymffurfio â'r polisi rhent, roedd angen i landlordiaid cymdeithasol sicrhau bod eu rhent wythnosol cyfartalog ar gyfer eu hanghenion cyffredinol a thai gwarchod yn rhoi gwerth am arian a fforddiadwyedd i denantiaid. Roedd y Cyngor wedi dangos hyn drwy ddefnyddio offeryn fforddiadwyedd HouseMark a oedd yn cymharu rhenti tai Cyngor â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCau) lleol. Nododd fod rhenti Tai Cyngor yn llai na'r rhent cyfartalog a godir gan y rhan fwyaf o LCCau ar gyfer y rhan fwyaf o feintiau a mathau o eiddo. Yn ogystal, talodd tenantiaid y Cyngor lai na 30% o'u hincwm ar rent a oedd yn brawf fforddiadwyedd cyffredin.

Cynigiodd y Cyngor gynyddu ei rent 2.75% ar gyfartaledd. Oherwydd Covid-19, ataliodd Llywodraeth Cymru Fandiau Rhent Targed yn 2020 a rhoi ffurflen monitro hunanardystio yn eu lle.

#### PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r cynigion terfynol ar gyfer cyllideb 2022/23 y CRT fel y nodir isod:

	Cyllideb Arfaethedig 2022/23 £'000
Gwariant	
Goruchwyllo a Rheoli	5,544
Atgyweiriadau a Gwaith Cynnal a Chadw	3,727
Costau Ariannu Cyfalaf	4,963
Rhenti, Ardrethi, Trethi a Chostau Eraill	237

Cynnydd mewn Darpariaeth Dyledion Drwg Gwariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw	673 18,452
---	---------------

Incwm	
Rhenti Anheddau	(21,299)
Rhenti Eiddo nad ydynt yn Anheddau	(162)
Diddordeb	102
Costau Gwasanaethau a Chyfleusterau	(545)
Cyfraniad tuag at wariant	(303)
Incwm o Grantiau (Gwarged)/Diffyg am y Flwyddyn	(205) 11,077

Balans ar 1 Ebrill 2022 a Ddygwyd Ymlaen	(12,000)
--	----------

Balans ar 31 Mawrth 2023 a Gariwyd Ymlaen	(923)
---	-------

(2) Cymeradwyo'r cynnydd cyfartalog o 2.75% mewn rhent, fel y nodir ym mharagraffau 2.8-2.10 yr adroddiad.

(3) Cymeradwyo'r cynnydd a awgrymir ar gyfer gwasanaethau eraill, fel y nodir ym mharagraffau 2.11-2.24 yr adroddiad.

(4) Cymeradwyo'r taliadau canlynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23:

<b>Sail 50 Wythnos</b>	<b>Ffioedd Cyfredol</b>	<b>Ffioedd Arfaethedig</b>
Gwres	£7.87 yr wythnos	£7.45 yr wythnos
Rheoli Tai Wardeniaid	£10.92 yr wythnos	£12.01 yr wythnos
Gwasanaeth Larwm		
Cymunedol y Fro	£1.29 yr wythnos	£1.29 yr wythnos
- Monitro	£2.20 yr wythnos	£2.20 yr wythnos
- Cynnal a chadw		
Cynnal a Chadw Tiroedd	£1.34 yr wythnos	£1.35 yr wythnos
Glanhau Ardaloedd Cymunedol	£2.52 yr wythnos	£2.57 yr wythnos
Goleuo Ardaloedd Cymunedol	£1.63 yr wythnos	£1.68 yr wythnos
Cyfleusterau Golchi Dillad	£0.48 yr wythnos	£0.38 yr wythnos
Glanhau Ffenestri	£0.17 yr wythnos	£0.18 yr wythnos
Cynnal a Chadw Liffitiau	£1.07 yr wythnos	£0.53 yr wythnos
Mynediad Drws	£0.44 yr wythnos	£0.25 yr wythnos
Intercom	£0.92 yr wythnos	£0.84 yr wythnos

Teledu Cylch Cyfyng (TCC)	£0.92 yr wythnos	£0.94 yr wythnos Yn seiliedig ar y Gwerth Ardrethol (GA) o Atodlen 2022/23 Dŵr Cymru
Offer Trin Carthffosiaeth	£374.73 y flwyddyn	Yn seiliedig ar y GA o Atodlen 2022/23 Dŵr Cymru
Gwagio Carthbyllau	£362.00 y flwyddyn	

(5) Gweithredu'r holl newidiadau i renti a thaliadau gwasanaeth o 1 Ebrill 2022, gydag wythnos gyntaf mis Ebrill yn wythnos dim rhent a bod hysbysiadau o'r cynyddiadau'n cael eu hanfon at denantiaid 28 diwrnod cyn i'r taliadau newydd ddod i rym.

#### Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-5) Er mwyn cymeradwyo taliadau, pennu lefelau rhent newydd o fewn canllawiau penodedig Llywodraeth Cymru a bodloni'r terfyn amser ar gyfer hysbysu tenantiaid fel sy'n ofynnol yn ôl statud.

#### 906 STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A BUDDSODDI 2022/23 A DIWEDDARIAD AR GYFER 2021/22 (CYF) –

Rhoddodd yr adroddiad interim y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediadau Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2021. Roedd yr holl weithgareddau yn unol â strategaeth gymeradwy'r Cyngor ar Reoli'r Trysorlys. Amlinellwyd manylion yr arian a fenthycwyd ac a ad-dalwyd a'r rheiny a fuddsoddwyd yn yr adroddiad.

Cyflwynodd Atodiad 2 yr adroddiad y Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli'r Trysorlys arfaethedig ar gyfer 2022/23.

Sicrhaodd y Cyngor y cydymffurfiwyd â'r Cod Darbodus, a ddatblygwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) yn god ymarfer proffesiynol. Er mwyn dangos bod y Cyngor wedi cyflawni'r amcanion hyn, nododd y Cod ddangosyddion darbodus y dylid eu defnyddio a'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried. Dangoswyd y rhain yn Atodiad 1 yr adroddiad yn rhan o'r Strategaeth.

Roedd gan y Cyngor hefyd ofyniad cyfreithiol i gydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau ac roedd wedi ystyried hyn wrth ddatblygu'r Strategaeth.

Roedd gwariant cyfalaf pan gaiff ei ariannu gan ddyled hirdymor yn mynd i ddwy elfen o gost, llog ar y prif swm a fenthycwyd ac ad-dalu'r prif swm a fenthycwyd. Gelwir yr adnoddau, yr oedd yn rhaid i'r Cyngor eu rhoi o'r neilltu ym mhob blwyddyn i ad-dalu'r prif swm a fenthycwyd, yn Ddarpariaeth Refeniw Ofynnol (DRO) a nodwyd polisi cyfrifo'r Cyngor yn yr adroddiad.

Ceir Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23 yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Byddai'r Cyngor yn mabwysiadu'n ffurfiol rifyn 2021 newydd CIPFA o'r Cod Darbodus a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 ynghyd â'r Cod Ymarfer a'r Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-sectoraidd ar Reoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.

#### PENDERFYNWYD -

(1) Cymeradwyo'r adroddiad interim ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2021.

(2) Cymeradwyo'r polisi ar gyfer gwneud DRO yn 2022/23.

(3) Cymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli'r Trysorlys arfaethedig ar gyfer 2022/23 gan gynnwys y penderfyniadau penodol canlynol (a nodir yn Atodiad 1):

- Pennu'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol ar £223.352m ar gyfer 2021/22, £241.693m ar gyfer 2022/23, £274.792m ar gyfer 2023/24 a £288.151m ar gyfer 2024/25.
- Pennu'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol ar £212.948m ar gyfer 2021/22, £230.785m ar gyfer 2022/23, £264.384m ar gyfer 2023/24 a £277.743m ar gyfer 2024/25.
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Adran 151 o fewn cyfanswm y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol fel yr amcangyfrifwyd ar gyfer blynyddoedd unigol i sicrhau symudiad rhwng y terfynau y cytunwyd arnynt ar wahân ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau hirdymor eraill.
- Pennu'r terfyn uchaf ar ei gyfradd llog sefydlog o £148.716m ar gyfer 2021/22, £172.311m ar gyfer 2022/23, £208.615m ar gyfer 2023/24 a £230.455m ar gyfer 2024/25 o'i brif swm net sy'n weddill ar ei fenthyciadau / buddsoddiadau.
- Pennu'r terfyn uchaf ar ei gyfradd llog amrywiol o £0 ar gyfer 2021/22, 2022/23, 2023/24 a 2024/25 o'i brif swm net sy'n weddill ar ei fuddsoddiadau.
- Pennu'r terfyn uchaf o £10m ar gyfer 2021/22, £10m ar gyfer 2022/23, £10m yn 2023/24 a £10m yn 2024/25 ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddwyd am dros 364 diwrnod.
- Gosod swm y benthyca rhagamcanol sy'n aeddfedu ar gyfradd sefydlog ym mhob cyfnod yn ganran o gyfanswm y benthyca rhagamcanol sy'n gyfradd sefydlog ar gyfer 2022/23, fel a ganlyn

	<b>Terfyn Uchaf</b>	<b>Terfyn Isaf</b>
Dan 12 mis	20%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	20%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	30%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	40%	0%
10 mlynedd a mwy	100%	0%

- Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus a nodir yn Atodiad 1.
- Cymeradwyo Polisi Rheoli'r Trysorlys a nodir yn Atodiad 2.

(4) Cymeradwyo mabwysiadu'n ffurfiol rifyn 2021 newydd CIPFA o'r Cod Darbodus ynghyd â'r Cod Ymarfer a'r Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-sectoraidd ar Reoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cyflwyno'r Adroddiad Interim ar Reoli'r Trysorlys.
- (2) Cytuno ar sail y cyfrifiad DRO ar gyfer 2022/23.
- (3) Paratoi'r Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli'r Trysorlys Flynyddol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.
- (4) Mae cymeradwyo mabwysiadu rhifyn 2021 newydd CIPFA o'r Cod Darbodus ynghyd â'r Cod Ymarfer a'r Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-sectoraidd ar Reoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ofyniad statudol.

## 907 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2022-23 (CYF) –

Roedd y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad ar 28 Chwefror, 2022 (Cofnod Rhif C847) ac roedd wedi cyfeirio'r un peth at y Cyngor i'w ystyried a'i gymeradwyo. Nododd yr adroddiad sut y datblygwyd y Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) drafft (Atodiad A yr adroddiad), canlyniad yr ymgynghoriad a'r newidiadau dilynol i'r Cynllun. Roedd y CCB ar gyfer 2022-23 yn cyd-fynd â phedwar Amcan Lles y Cyngor.

Nododd y Cynllun y gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal yn 2022-23 i gyflawni'r Amcanion Lles. Byddai'r camau gweithredu yn y CCB hefyd yn cyfrannu at chwe thema drawsbynciol; Prosiect Sero, caledi, gofal a chymorth, trawsnewid, seilwaith a chapasiti cymunedol. Byddai'r ymrwymadau yn y CCB yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol ynghyd â thargedau gwella gwasanaethau a fyddai'n manylu ar sut y byddai gwahanol wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at gyflawni'r pedwar Amcan Lles.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo CCB Drafft Bro Morgannwg ar gyfer 2022/23, fel y nodir yng Nghofnod Rhif C847 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022.

## Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## 908 CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI (CYF) –

Nododd yr adroddiad gynllun busnes 30 mlynedd y Cyngor ar gyfer tai i gefnogi'r arian parhaus y mae'r Cyngor yn ei gael drwy Lwfans Atgyweiriadau Mawr (LAM) Llywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sydd â stoc tai a gedwir gyflwyno Cynllun Busnes Tai blynyddol addas at y diben, gan ymgorffori rhagolwg ariannol manwl ar ffurf model ariannol 30 mlynedd. Roedd y Cynllun Busnes yn cynnwys blaen-ddatganiad gan Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Tai ac Adeiladau, gan adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ystod y pandemig ac i barhau i ddatblygu cymunedau cynaliadwy a darparu gwasanaethau allweddol.

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo'r Cynllun Busnes Refeniw Tai sydd ynghlwm wrth yr adroddiad i'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022, cofnod rhif C851.

#### Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn gallu cyflwyno'r Cynllun uchod i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau gofynnol sef 31 Mawrth, 2022.

#### 909 ASESIAID ANGHENION POBLOGAETH CAERDYDD A BRO MORGANNWG 2022 (CYF) –

Hwn oedd yr adroddiad terfynol ar gyfer ail Asesiad Anghenion y Boblogaeth (AAB) ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg, yn dilyn y cyntaf a gyhoeddwyd yn 2017. Dylid darllen yr AAB ochr yn ochr â'r Asesiadau Lles cyflenwol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg er mwyn cael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r rhanbarth.

Cynhaliwyd yr AAB rhwng mis Mai 2021 a mis Mawrth 2022 a rhoddodd ddiweddariad ar adroddiad 2017. Defnyddiwyd data ac adroddiadau presennol i lywio'r asesiad, ochr yn ochr â gwaith ymgysylltu pwrpasol ar ffurf arolygon (ar gyfer y cyhoedd, plant a phobl ifanc, pobl yng Ngharchar Caerdydd, a gweithwyr proffesiynol / darparwyr) yn ogystal â grwpiau ffocws.

Roedd AAB drafft wedi'i ystyried gan Bwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ym mis Ionawr 2022.

Roedd gwelliannau wedi'u gwneud mewn gwasanaethau gofal a chymorth ar draws pob grŵp poblogaeth ers AAB 2017, er gwaethaf heriau COVID-19. Roedd COVID-19 wedi cael nifer o effeithiau, gan gynnwys galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig iechyd meddwl, a newid modelau darparu ar gyfer llawer o wasanaethau.

#### PENDERFYNWYD –

(1) Nodi a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad i'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022, cofnod rhif C857.

(2) Cymeradwyo Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022 fel y'i adroddwyd i'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022, cofnod rhif C857

#### Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1 a 2) Er mwyn bodloni gofynion y fframwaith statudol ar gyfer llunio'r Asesiad Anghenion y Boblogaeth.

#### 910 TREFNIADAU CYDWEITHREDOL CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU A MAETHU CYMRAEG (BRO MORGANNWG) – GWASANAETHAU MABWYSIADU CENEDLAETHOL I GYMRU A MAETHU CYMRU - GWELLA LLYWODRAETHU, ARWAIN A GALLUOGI (CYF) –

Rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y cynigion ar gyfer datblygu'r llywodraethu ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru gan ei fod yn

cymryd cyfrifoldeb dros Maethu Cymru ac i gytuno i lofnodi Cytundeb y Cydbwyllgor ar gyfer y Cydbwyllgor arfaethedig.

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo ymrwymo i Gytundeb ("y Cytundeb") (a atodir yn Atodiad 3 adroddiad y Cabinet ar 28 Chwefror 2022, cofnod rhif C858) ar gyfer sefydlu Cydbwyllgor ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) Cymru gan ei fod yn cymryd cyfrifoldeb dros Maethu Cymru.
- (2) Mai'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb portffolio dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd fydd cynrychiolydd enwebedig y Cyngor fel aelod pleidleisio o'r Cydbwyllgor.
- (3) Rhoi Awdurdod Dirprwyedig i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd i ymrwymo i'r Cytundeb ar ran y Cyngor.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Wedi ystyried cynigion y Cabinet ac Atodiad 3 yr adroddiad i'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022, cofnod rhif C858.

911 TRETHI ANNOMESTIG - RHYDDHAD ARDRETHI MANWERTHU, LLETYGARWCH A HAMDDEN (CYF) –

Roedd y Cabinet yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022 wedi ystyried yr adroddiad a'i ddiben oedd cadarnhau mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden ar gyfer 2022/2023 mewn perthynas ag eiddo busnes cymwys yn ardal Bro Morgannwg dan bwerau rhyddhad yn ôl disgrisiwn yn unol ag adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Tynnodd yr adroddiad sylw'r Cabinet at bwerau yn ôl disgrisiwn y Cyngor i ddyfarnu rhyddhad ardrethi annomestig i fusnesau yn ardal y Cyngor dan Adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Tynnodd yr adroddiad sylw'r Cabinet hefyd at yr arian arfaethedig a fyddai'n cael ei roi gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi busnesau yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden ledled ardal y Cyngor.

Cynigiodd yr adroddiad mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden ar gyfer 2022-23 yn unol â'r darpariaethau yn Adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

PENDERFYNWYD –

- (1) Mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden ar gyfer 2022-23, fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022, cofnod rhif C860, yn unol â'r darpariaethau yn Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.
- (2) Cytuno i roi rhyddhad i bob busnes cymwys yn unol â'r Canllawiau Rhyddhad Ardrethi Annomestig Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sydd i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad i'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022, cofnod rhif C860.

(3) Cytuno ar hawl busnesau cymwys i gael y rhyddhad ar ôl derbyn ffurflen gais ddilys.

#### Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Er mwyn gallu mabwysiadu cynllun gan ddefnyddio pwerau rhyddhad yn ôl disgresiwn dan Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ar gyfer rhoi Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden i eiddo busnes cymwys yn ardal Bro Morgannwg.

DS. Er nad oedd unrhyw anghytuno, ac y cytunwyd ar y cynnig, tynnodd y Cynghorydd Cave sylw at y ffaith ei bod wedi ymatal rhag pleidleisio.

#### 912 GOSOD Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2021-22 –

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y penderfyniad diwygiedig ar y Dreth Gyngor a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau cyn y cyfarfod ac fe'i

#### PENDERFYNWYD -

(1) Nodi y cyfrifodd y Cabinet (y Weithrediaeth) yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2021 y symiau canlynol ar gyfer blwyddyn 2022/23 yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

a) 61,978 – sef y swm a gyfrifwyd gan y Cabinet (y Weithrediaeth) yn unol â rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, fel sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn.

#### (b) Rhan o ardal y Cyngor

Y Barri	20,845
Tregolwyn	373
Y Bont-faen gyda Llanfleiddan	2,788
Dinas Powys	4,027
Ewenni	448
Llancarfan	479
Llandochoau	957
Llandŵ	432
Llanfair	382
Llan-gan	464
Llan-faes	252
Llanilltud Fawr	4,317
Llanfihangel	229
Penarth	11,648
Pendeulwyn	356
Pen-llin	1,062
Llanbedr-y-fro	551
Sain Tathan	1,524
Saint-y-brid	1,418
Sain Dunwyd	210
Sain Siorys a Llansanffraid Elái	236



Sain Nicolas a Thresimwn	726
Sili a Larnog	2,591
Llanddunwyd	321
Gwenfô	1,569
Y Wig	541

Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y Rhws yw 3,232.

sef y symiau a gyfrifwyd gan y Cabinet (y Weithrediaeth) yn unol â rheoliad 6 y Rheoliadau, fel y'u diwygiwyd, fel swm sylfaen y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(2). Bod y symiau canlynol yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2022/23 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992:

- |     |   |              |
|-----|---|--------------|
| (a) | Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32 (2) (a) i (d) a (2A) y Ddeddf (gan gynnwys Praeseptau Cyngor Tref / Cymuned sy'n £3,270,081).  | £410,130,189 |
| (b) | Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32 (3) (a), (aa) a (c), a (3A) y Ddeddf   | £134,596,000 |
| (c) | Y swm y mae'r cyfanswm yn (2)(a) uchod yn fwy na'r cyfanswm yn (2)(b) uchod a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf fel y gofyniad ar gyfer cyllideb y flwyddyn.   | £275,538,189 |
| (d) | Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y cânt eu talu yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor mewn perthynas ag ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu, y grant cynnal refeniw, ei gynllun gostyngiad treth gyngor, grantiau ychwanegol neu grantiau arbennig llai Rhyddhad Ardrethi Annomestig yn ôl Disgresiwn penodol | £185,725,128 |
| (e) | Y swm yn (2)(c) uchod ond llai'r swm yn (2)(d) uchod, wedi'i rannu gan y swm yn (1)(a) uchod, wedi'i gyfrifo  | £1,449.11    |

gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf fel swm sylfaenol y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn.

(f) Cyfansymu swm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf. £3,270,081

(g) Y swm yn (2)(e) uchod llai'r canlyniad a geir trwy rannu'r swm yn (2)(f) uchod gan y swm yn (1)(a) uchod, wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer aneddiadau yn y rhannau hynny o'r ardal lle nad oes eitemau arbennig yn berthnasol iddynt. £1,396.35

(h) <u>Rhan o ardal y Cyngor</u>	<u>£</u>
Y Barri	1,455.95
Tregolwyn	1,436.83
Y Bont-faen gyda Llanfleiddan	1,474.66
Dinas Powys	1,427.12
Ewenni	1,445.85
Llancarfan	1,422.13
Llandochau	1,439.14
Llandŵ	1,419.50
Llanfair	1,408.41
Llan-gan	1,419.57
Llan-faes	1,444.87
Llanilltud Fawr	1,455.55
Llanfihangel	1,425.23
Penarth	1,478.88
Pendeulwyn	1,417.85
Pen-llin	1,408.47
Llanbedr-y-fro	1,438.09
Sain Tathan	1,428.92
Saint-y-brid	1,414.33
Sain Dunwyd	1,415.80
Sain Siorys a Llansanffraid Elái	1,420.33
Sain Nicolas a Thresimwn	1,472.34
Sili a Larnog	1,434.71
Llanddunwyd	1,418.16
Gwenfô	1,420.44
Y Wig	1,407.44

Y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm yn (2)(g) uchod y symiau o'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a nodir uchod, wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn (1)(b) uchod, wedi'u cyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf fel symiau sylfaenol y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

## (i) Rhan o ardal y Cyngor

## Bandiau Priso

£	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Y Barri	970.63	1,132.41	1,294.18	1,455.95	1,779.49	2,103.04	2,426.58	2,911.90	3,397.22
Tregolwyn	957.89	1,117.53	1,277.18	1,436.83	1,756.13	2,075.42	2,394.72	2,873.66	3,352.60
Y Bont-faen gyda Llanfleiddan	983.11	1,146.96	1,310.81	1,474.66	1,802.36	2,130.06	2,457.77	2,949.32	3,440.87
Dinas Powys	951.41	1,109.98	1,268.55	1,427.12	1,744.26	2,061.40	2,378.53	2,854.24	3,329.95
Ewenni	963.90	1,124.55	1,285.20	1,445.85	1,767.15	2,088.45	2,409.75	2,891.70	3,373.65
Llancarfan	948.09	1,106.10	1,264.12	1,422.13	1,738.16	2,054.19	2,370.22	2,844.26	3,318.30
Llandochau	959.43	1,119.33	1,279.24	1,439.14	1,758.95	2,078.76	2,398.57	2,878.28	3,357.99
Llandŵ	946.33	1,104.06	1,261.78	1,419.50	1,734.94	2,050.39	2,365.83	2,839.00	3,312.17
Llanfair	938.94	1,095.43	1,251.92	1,408.41	1,721.39	2,034.37	2,347.35	2,816.82	3,286.29
Llan-gan	946.38	1,104.11	1,261.84	1,419.57	1,735.03	2,050.49	2,365.95	2,839.14	3,312.33
Llan-faes	963.25	1,123.79	1,284.33	1,444.87	1,765.95	2,087.03	2,408.12	2,889.74	3,371.36
Llanilltud Fawr	970.37	1,132.09	1,293.82	1,455.55	1,779.01	2,102.46	2,425.92	2,911.10	3,396.28
Llanfihangel	950.15	1,108.51	1,266.87	1,425.23	1,741.95	2,058.67	2,375.38	2,850.46	3,325.54
Penarth	985.92	1,150.24	1,314.56	1,478.88	1,807.52	2,136.16	2,464.80	2,957.76	3,450.72
Pendeulwyn	945.23	1,102.77	1,260.31	1,417.85	1,732.93	2,048.01	2,363.08	2,835.70	3,308.32
Pen-llin	938.98	1,095.48	1,251.97	1,408.47	1,721.46	2,034.46	2,347.45	2,816.94	3,286.43
Llanbedr-y-fro	958.73	1,118.51	1,278.30	1,438.09	1,757.67	2,077.24	2,396.82	2,876.18	3,355.54
Y Rhws	930.90	1,086.05	1,241.20	1,396.35	1,706.65	2,016.95	2,327.25	2,792.70	3,258.15
Sain Tathan	952.61	1,111.38	1,270.15	1,428.92	1,746.46	2,064.00	2,381.53	2,857.84	3,334.15
Saint-y-brid	942.89	1,100.03	1,257.18	1,414.33	1,728.63	2,042.92	2,357.22	2,828.66	3,300.10
Sain Dunwyd	943.87	1,101.18	1,258.49	1,415.80	1,730.42	2,045.04	2,359.67	2,831.60	3,303.53
Sain Siorys a Llansanffraid Elái	946.89	1,104.70	1,262.52	1,420.33	1,735.96	2,051.59	2,367.22	2,840.66	3,314.10
Sain Nicolas a Thresimwn	981.56	1,145.15	1,308.75	1,472.34	1,799.53	2,126.71	2,453.90	2,944.68	3,435.46
Sili a Larnog	956.47	1,115.89	1,275.30	1,434.71	1,753.53	2,072.36	2,391.18	2,869.42	3,347.66
Llanddunwyd	945.44	1,103.01	1,260.59	1,418.16	1,733.31	2,048.45	2,363.60	2,836.32	3,309.04
Gwenfô	946.96	1,104.79	1,262.61	1,420.44	1,736.09	2,051.75	2,367.40	2,840.88	3,314.36
Y Wig	938.29	1,094.68	1,251.06	1,407.44	1,720.20	2,032.97	2,345.73	2,814.88	3,284.03

Y symiau a geir trwy luosogi'r symiau yn (2)(g) a (2)(h) uchod gan y rhif sydd, yn y gyfran a nodir Adran 5 (1/1A) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band priso penodol wedi'i rannu gan y rhif sydd, yn y gyfran hon, yn berthnasol i anheddau a restrir ym mand priso D wedi'i gyfrifo gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) y Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategoriâu anheddau a restrir mewn bandiau priso gwahanol.

(3) Nodi bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddau dros Dde Cymru, ar gyfer y flwyddyn 2022/23, wedi dweud bod y symiau canlynol mewn praeceptau wedi'u cyhoeddi i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:-

£	Bandiau Priso								
	A	B	C	D	E	F	G	H	I
	201.41	234.97	268.54	302.11	369.25	436.38	503.52	604.22	704.92

(4) Wedi cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos y symiau yn (2)(i) a (3) uchod, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, yn unol ag Adran 30 (2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau canlynol fel symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

Rhan o ardal y Cyngor	Bandiau Prisio									
	£	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Y Barri		1,172.04	1,367.38	1,562.72	1,758.06	2,148.74	2,539.42	2,930.10	3,516.12	4,102.14
Tregolwyn		1,159.30	1,352.50	1,545.72	1,738.94	2,125.38	2,511.80	2,898.24	3,477.88	4,057.52
Y Bont-faen gyda Llanfleiddan		1,184.52	1,381.93	1,579.35	1,776.77	2,171.61	2,566.44	2,961.29	3,553.54	4,145.79
Dinas Powys		1,152.82	1,344.95	1,537.09	1,729.23	2,113.51	2,497.78	2,882.05	3,458.46	4,034.87
Ewenni		1,165.31	1,359.52	1,553.74	1,747.96	2,136.40	2,524.83	2,913.27	3,495.92	4,078.57
Llancarfan		1,149.50	1,341.07	1,532.66	1,724.24	2,107.41	2,490.57	2,873.74	3,448.48	4,023.22
Llandochau		1,160.84	1,354.30	1,547.78	1,741.25	2,128.20	2,515.14	2,902.09	3,482.50	4,062.91
Llandŵ		1,147.74	1,339.03	1,530.32	1,721.61	2,104.19	2,486.77	2,869.35	3,443.22	4,017.09
Llanfair		1,140.35	1,330.40	1,520.46	1,710.52	2,090.64	2,470.75	2,850.87	3,421.04	3,991.21
Llan-gan		1,147.79	1,339.08	1,530.38	1,721.68	2,104.28	2,486.87	2,869.47	3,443.36	4,017.25
Llan-faes		1,164.66	1,358.76	1,552.87	1,746.98	2,135.20	2,523.41	2,911.64	3,493.96	4,076.28
Llanilltud Fawr		1,171.78	1,367.06	1,562.36	1,757.66	2,148.26	2,538.84	2,929.44	3,515.32	4,101.20
Llanfihangel		1,151.56	1,343.48	1,535.41	1,727.34	2,111.20	2,495.05	2,878.90	3,454.68	4,030.46
Penarth		1,187.33	1,385.21	1,583.10	1,780.99	2,176.77	2,572.54	2,968.32	3,561.98	4,155.64
Pendeulwyn		1,146.64	1,337.74	1,528.85	1,719.96	2,102.18	2,484.39	2,866.60	3,439.92	4,013.24
Pen-llin		1,140.39	1,330.45	1,520.51	1,710.58	2,090.71	2,470.84	2,850.97	3,421.16	3,991.35
Llanbedr-y-fro		1,160.14	1,353.48	1,546.84	1,740.20	2,126.92	2,513.62	2,900.34	3,480.40	4,060.46
Y Rhws		1,132.31	1,321.02	1,509.74	1,698.46	2,075.90	2,453.33	2,830.77	3,396.92	3,963.07
Sain Tathan		1,154.02	1,346.35	1,538.69	1,731.03	2,115.71	2,500.38	2,885.05	3,462.06	4,039.07
Saint-y-brid		1,144.30	1,335.00	1,525.72	1,716.44	2,097.88	2,479.30	2,860.74	3,432.88	4,005.02
Sain Dunwyd		1,145.28	1,336.15	1,527.03	1,717.91	2,099.67	2,481.42	2,863.19	3,435.82	4,008.45
Sain Siorys a Llansanffraid Elái		1,148.30	1,339.67	1,531.06	1,722.44	2,105.21	2,487.97	2,870.74	3,444.88	4,019.02
Sain Nicolas a Thresimwn		1,182.97	1,380.12	1,577.29	1,774.45	2,168.78	2,563.09	2,957.42	3,548.90	4,140.38
Sili a Larnog		1,157.88	1,350.86	1,543.84	1,736.82	2,122.78	2,508.74	2,894.70	3,473.64	4,052.58
Llanddunwyd		1,146.85	1,337.98	1,529.13	1,720.27	2,102.56	2,484.83	2,867.12	3,440.54	4,013.96
Gwenfô		1,148.37	1,339.76	1,531.15	1,722.55	2,105.34	2,488.13	2,870.92	3,445.10	4,019.28
Y Wig		1,139.70	1,329.65	1,519.60	1,709.55	2,089.45	2,469.35	2,849.25	3,419.10	3,988.95

No.

- (5) Peidio â rhoi gostyngiad am dalu'r Dreth Gyngor yn brydlon.
- (6) Cytuno bod y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i'r Dreth Gyngor ddywededig.
- (7) Cytuno bod hysbysiadau o greu'r Trethi Cyngor dywededig wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr yn cael eu hysbysebu yn y wasg leol dan Adran 38(2) Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1-7) Er mwyn pennu'r Dreth Gyngor ar gyfer 2022-23.

913 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y COD YMARFER A ARGYMHELLIR AR GYFER CYHOEDDUSRWYDD AWDURDOD LLEOL (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C758 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2021 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

914 YMATAB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR REOLIADAU CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL (CYFFREDINOL) (CYMRU) 2022 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C771 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2021 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

915 STRATEGAETH DDRAFFT AR DAI LLEOL 2021 – 2026 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C809 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

No.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

916 CYNLLUN DEISEBAU DRAFFT BRO MORGANNWG (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C817 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

917 CYNIGION TERFYNOL AR GYFER CYLLIDEB REFENIW 2022/23 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C840 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

918 STRATEGAETH GYFALAF 202/232 A CHYNIGION CYFALAF TERFYNOL 2022/23 I 2026/27 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C841 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

919 CYIGION CYLLIDEB TERFYNOL Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT) 2022/23 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C842 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

No.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

920 STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A BUDDSODDI 2022/23 A DIWEDDARIAD AR GYFER 2021/22 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C843 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

921 CYFLWYNO STRATEGAETH FUDDSODDI GWASANAETH DI-DRYSORLYS, Y GRONFA BUDDSODDI A THWF (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C845 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

922 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2022-23 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C847 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.



No.

923 CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C851 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

924 ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH CAERDYDD A BRO MORGANNWG 2022 (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C857 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

925 TREFNIADAU CYDWEITHREDOL CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU A MAETHU CYMRAEG (BRO MORGANNWG) – GWASANAETHAU MABWYSIADU CENEDLAETHOL I GYMRU A MAETHU CYMRU - GWELLA LLYWODRAETHU, ARWAIN A GALLUOGI (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C858 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

926 TRETHI ANNOMESTIG - RHYDDHAD ARDRETHI MANWERTHU, LLETYGARWCH A HAMDDEN (CYF) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C860 cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (fel y nodir yn Adran 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor).

Y rheswm dros y penderfyniad

No.

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

#### 927 CWESTIYNAU SY'N UNOL AG ADRAN 4.18 O GYFANSODDIAD Y CONCIL –

Cyflwynwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau'r Aelodau fel y'u cynhwysir yn yr agenda:

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran darparu Llwybr Teithio Llesol rhwng Dinas Powys a'r Barri?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer Llwybr Teithio Llesol rhwng Dinas Powys a'r Barri yn 2021/22 roedd swyddogion wedi cynnal y canlynol:

- Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd,
- Ymchwiliad Perchnogaeth Tir,
- Arfarniad Opsiynau o lwybrau teithio llesol i mewn i Gaerdydd ac
- Adolygiad o'r gwaith blaenorol hyd yma.

Gallaf ddweud y bydd ymgynghoriad ar yr opsiynau posibl ar gyfer y Llwybr Teithio Llesol yn cael ei gynnal o fewn yr 8 wythnos nesaf. Yna, gan ddibynnu ar yr arian sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw lwybr a ddewisir, gellir symud y Cynllun ymlaen a chynllunio cysyniadau o fis Ebrill 2022.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson am gynigion ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer y llwybr a'r amserlenni.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd King y byddai'n gwneud ymholiadau ac yn ymateb fel sy'n briodol i'r Cynghorydd Johnson.

(ii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhwng y Cyngor a sefydliadau eraill ynghylch rhoi cymorth i ffoaduriaid Wcráin?

## **Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Hoffwn yn gyntaf drosglwyddo fy meddyliau personol i bobl Wcráin sy'n dioddef caledi ac arswyd na ellir eu dychmygu, a mynegi fy nirmyg llwyr am weithredoedd barbaraid Arlywydd Rwsia. Fel pob un ohonom yn y cyfarfod hwn ni allaf ddeall sut y gall erchyllterau o'r fath ddigwydd yn Ewrop yn y 21<sup>ain</sup> ganrif.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn rhannu dicter y byd am yr ymosodiadau hynod ofidus a hollol ddireswm ar bobl Wcráin a bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi'r rheiny a ddadleolir gan y gwrthdaro.

Yn ystod y dyddiau diwethaf mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cyhoeddi llu o fesurau newydd, gan gynnwys consesiynau fisa dros dro, a gynlluniwyd i helpu aelodau teulu gwladolion Prydain sy'n byw yn Wcráin a phobl Wcráin heb unrhyw gysylltiad teuluol â'r DU.

Mae'r Awdurdod wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r Swyddfa Gartref, ochr yn ochr ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, a bydd yn parhau i weithio gyda phartneriaid lleol i ddeall manylion y cynlluniau newydd hyn sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y Cynllun Teuluoedd o Wcráin a'r Cynllun Nawdd Lleol ar gyfer Wcráin.

Gobeithiaf y gellir dod o hyd i ateb diplomataidd i ddod â'r gwrthdaro hwn i ben, fodd bynnag, oni bai bod sancsiynau wedi'u targedu'n effeithiol wrth roi terfyn ar ymosodiad Rwsia, byddwn yn parhau i gynorthwyo'r rheiny sy'n chwilio'n daer am loches mewn gwledydd cyfagos.

Fel y mae wedi dangos dro ar ôl tro drwy ei ymrwymiad i ffoaduriaid o'r gwrthdaro yn Syria ac, yn fwy diweddar, argyfwng Affganistan, mae Cyngor Bro Morgannwg yn barod i chwarae ei ran i gefnogi'r rheiny mewn angen a bydd yn ystyried y ffordd orau o wneud hynny ar y cyd â Llywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r swyddogion wedi siarad â'r Swyddfa Gartref a byddant yn parhau i siarad â hwy a byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid ac Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

## **Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson wrth gydnabod y sefyllfa sy'n newid yn gyflym a allai Maes Awyr Caerdydd fod yn ganolfan fynediad bosibl i ffoaduriaid sy'n dod i Gymru ac a oedd unrhyw beth arall y gallai'r Cyngor ei wneud i gefnogi'r ffoaduriaid.

Mewn ymateb dywedodd yr Arweinydd y byddai'n ymchwilio i'r awgrym o ddefnyddio Maes Awyr Caerdydd a dywedodd, pe bai unrhyw beth pellach y gallai'r Cyngor ei wneud, wedyn byddai'n ei wneud.

(iii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

A ellir cadarnhau nad yw'r gwaith a wnaed ar Gei'r Dwyrain yn y Barri wedi achosi ac na fydd yn achosi unrhyw ddifrod o gwbl i gyfanrwydd y leinin yn Noc Sych Rhif 1, lle'r oedd y doc hwnnw wedi'i lenwi â deunydd gwenwynig?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio**

Mae hyn yn debyg iawn i gwestiwn cyhoeddus sydd hefyd wedi'i gyflwyno i'r cyfarfod hwn, a byddaf yn ateb mewn modd tebyg.

Mae'r caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer Adfywio'r Glannau yn cynnwys amodau sydd wedi ei gwneud yn ofynnol i ymchwilio i halogi posibl a lle y caiff ei ganfod, i'w adfer.

Mae Asesiad Geodechnegol o'r ardal dan sylw yn nodi 'Mae'r doc sych wedi'i ôl-lenwi i bob pwrpas yn gell cadw gwastraff a adeiladwyd gyda leinin polyethylen dwysedd uchel wedi'i beiriannu sydd wedi'i ôl-lenwi â phriddoedd halogedig o ardal dociau'r Barri'.

Mae cynllun manau agored cyhoeddus wedi'i gymeradwyo yn yr ardal hon, ac mae hynny'n golygu codi lefelau (600mm gyda deunydd gorchudd glân) i sicrhau nad yw'r ardal yn cael ei hafloynnyddu. Mae'r amodau ar y caniatâd cynllunio hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad dilysu gael ei gyflwyno a bydd angen hyn ar ôl cwblhau'r gwaith adfer. Mae amod arall yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gael ei weithredu o ran monitro hirdymor.

Mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) y Cyngor yn adolygu ac yn asesu'r holl wybodaeth a dderbynnir yn rhan o'r broses gynllunio mewn perthynas ag amodau halogi tir ar ganiatâd cynllunio. Pe bai unrhyw bryderon yn cael eu mynegi bod y datblygwr wedi torri'r amodau cynllunio, yna byddai Tîm Gorfodi Cynllunio'r Cyngor yn ymchwilio i faterion o'r fath, gyda chymorth / arweiniad technegol gan y GRhR yn ôl yr angen.

**Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson a allai'r Aelod Cabinet gadarnhau pwy oedd yn gyfrifol am y mater.

Dywedodd yr Aelod Cabinet mai cyfrifoldeb y datblygwyr oedd ef, Byddai'n cael ei fonitro a byddai unrhyw achosion o dorri amodau yn cael eu hystyried gan y GRhR a thîm gorfodi'r Cyngor.

(iv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Wrth i ni nesáu at yr hyn yr ydym yn gobeithio yw diwedd y pandemig, sut mae'r Cyngor yn bwriadu cipio'r dysgu a wnaed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf fel y gallwn fod yn fwy parod ar gyfer tonnau eraill neu bandemig arall yn y dyfodol?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch unwaith eto i'n holl gydweithwyr yn y Cyngor am eu gwaith aruthrol drwy gydol yr hyn sydd wedi bod yn ddwy flynedd anodd ac aflonydd. Yn benodol, i dîm Cynllunio at Argyfwng y Cyngor sydd wedi cydlynu ymateb y sefydliad yn unol â'n gweithdrefnau Cynllunio at Argyfwng, yn ogystal â'n holl staff rheng flaen sydd wedi parhau i gyflawni mewn amgylchiadau heriol, mae wedi bod yn anodd ond roedd y Cyngor wedi dysgu llawer.

Fodd bynnag, mae'r cyfnod hwn wedi bod yn argyfwng fel dim arall, ac rydym wedi gweld ymrwymiad, ymroddiad a dyfeisgarwch ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor.

Byddwch yn cofio i Strategaeth Adfer o'r Coronafeirws gael ei mabwysiadu yn hydref 2020, ar adeg pan ystyriwyd bod y cyfnod adfer yn dechrau. Gwnaeth y gwaith hwnnw adlewyrchu'r dysgu sylweddol i'r pwynt hwnnw, gan gynnwys canlyniadau arolwg staff.

Mae cynnwys y Strategaeth honno'n parhau'n berthnasol ac fe'i hymgorfforwyd yn nau CCB dilynol y Cyngor sy'n helpu i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol.

Wrth lunio'r CCB, mae amrywiaeth o bethau wedi'u hystyried, ac mae ymateb y sefydliad i'r pandemig wedi bod yn sbardun allweddol. Byddwch yn nodi bod y chwe thema wedi'u defnyddio wrth ddatblygu'r CCB a'n bod wedi eu hystyried yn gynharach heno, ac wedi cydnabod eu perthnasedd arbennig i'r pandemig, yn ogystal â ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein cymunedau ar hyn o bryd

Rydym hefyd wedi cynnal adolygiad o ymateb y Cyngor i'r pandemig drwy'r broses Cynllunio at Argyfwng er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hadlewyrchu yn y prosesau hyn.

Ar hyn o bryd rydym yn cyfrannu at drafodaethau gyda'n partneriaid ac er bod cysylltiadau cryf o'r blaen, maent wedi'u cryfhau yn ystod y pandemig. Wrth i amser fynd yn ei flaen ac wrth i ddylanwad y coronafeirws ar ein bywydau leihau, byddwn yn symud ein ffocws at ystod wahanol o faterion iechyd cyhoeddus, lles a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cael ei ddatblygu, er enghraifft, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lle mae eitem sefydlog ar yr agenda i bartneriaid rannu profiadau ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Lles a ddeilliodd o'r Aseiad Lles a gwblhawyd yn ddiweddar. Rydym yn cyfarfod â chydweithwyr lechyd bob pythefnos.

No.

Mae trafodaethau ar y gweill ar lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol, a bydd y Cyngor yn cyfrannu at yr ymchwiliad cenedlaethol i'r coronafeirws ac yn myfyrio ar unrhyw ganfyddiadau sy'n deillio o'r ymchwiliad hwnnw.

Mae dysgu sefydliadol yn amlwg yn rhan bwysig o'r ffordd rydym yn parhau i wella gwasanaethau a'n parodrwydd ar gyfer y dyfodol ac mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi cyflwyno dyletswydd hunanasesu newydd sy'n effeithio ar ein cynnydd. Bydd hyn yn darparu'r mecanwaith ar gyfer cipio a rhannu dysgu, er mwyn bwydo i mewn i gynlluniau gwasanaeth i'w cyflawni'n flynyddol.

Rydym wedi dysgu llawer a byddwn yn rhannu ar gyfer y dyfodol er enghraifft gyda Phrosiect Sero rydym yn edrych ar y newidiadau a achoswyd gan y pandemig. Dan gapasiti cymunedol rydym yn adeiladu ar yr ysbryd cymunedol a'r gwirfoddoli anhygoel a welwyd yn ystod y pandemig ac rydym yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r coronafeirws o ran caledi a brofir gan lawer o'n dinasyddion. Bu heriau enfawr ym maes gofal cymdeithasol ac rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau gwirfoddol. Un enghraifft o hyn yw gweithio gyda'r banciau bwyd a'r Pod Bwyd ym Mhenarth ymhlith eraill. Byddwn hefyd yn ystyried y seilwaith a bydd angen i ni adolygu'r CCB. Mae cymaint rydym wedi'i ddysgu ac mae mor amrywiol ac mae'r pandemig wedi newid y ffordd y mae pobl yn gweithio.

### **Atodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson sut y byddai'r Cyngor yn casglu'r wybodaeth wrth symud ymlaen.

Dywedodd yr Arweinydd mewn ymateb fod Cadeirydd yr Ymchwiliad i'r pandemig eisoes wedi cysylltu â'r Cyngor er gwybodaeth. Byddai'r CCB hefyd yn bwydo i mewn i Gynlluniau Gwasanaeth er mwyn delio â materion yn y dyfodol. Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ailadrodd ei ddiolch am y gwaith a wnaed gan y Tîm Cynllunio at Argyfwng. Dywedodd fod y gwaith nid yn unig wedi cynnwys gwaith mewn perthynas â'r pandemig ond mewn perthynas â llifogydd diweddar a'r storm a oedd wedi digwydd.

#### **(v) Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad yr arolygon parcio diweddar a gynhaliwyd ar ystâd Doehdwy yn Llandochoau?

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Diolch am y cwestiwn a gyflwynwyd ychydig ddyddiau'n ôl, fodd bynnag, ers gwneud hynny, rydych chi a minnau wedi cael cyfle i gwrdd â'r Swyddogion i gael golwg braidd yn rhagarweiniol ar ganlyniadau'r arolwg.

Esboniodd fy Swyddogion y tybiaethau a wnaed ond nad oedd y fideos wedi'u hystyried yn llawn eto a gyda'n gilydd, gwnaethom rai asesiadau cychwynnol.

No.

Credaf ein bod wedi gadael pethau gyda chi; mynd i ofyn am gyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned, gyda chymorth fy Swyddogion.

**Dim cwestiwn atodol** gan fod y Cynghorydd Carrol wedi nodi bod pethau wedi symud ymlaen ac y byddai'n mynd ar drywydd hyn fel y cytunwyd.

(vi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A wnaiff yr Aelod Cabinet gadarnhau a yw'r Weinyddiaeth bresennol yn cefnogi cynlluniau ar gyfer tai ar hen safle Ysgol Eagleswell yn Llanilltud Fawr?

**Ateb gan yr Arweinydd ar ran yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau**

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau wedi meddiannu'r safle yn flaenorol, o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), er mwyn cynyddu stoc tai Cyngor Bro Morgannwg. Roedd hyn mewn ymateb i gyfarwydddeb Llywodraeth Cymru i Gynghorau gynyddu graddfa a chyflymder eu rhaglenni adeiladu tai, er mwyn bodloni anghenion tai cynyddol eu preswylwyr a'r prinder dybryd o dai cymdeithasol yn y Fro. Ar hyn o bryd mae 469 o ymgeiswyr ar Restr Aros Homes4U sydd angen llety yn Llanilltud Fawr.

Wedi dweud hynny, rwyf hefyd yn llwyr werthfawrogi'r angen am gyfleusterau i gadw i fyny â'r safleoedd tai newydd. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r teimlad yn lleol ar ôl cydgysylltu â'r Cynghorwyr lleol sydd wedi bod yn glir o'r angen am gyfleusterau iechyd ychwanegol yn y dref.

Rwy'n rhannu ei farn ac rwyf eisoes wedi cysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro ar y mater hwn. Ni welaf unrhyw reswm pam na ellir dynodi'r safle'n safle defnydd cymysg pan gaiff y CDLI ei adolygu i gynnwys Canolfan Iechyd ochr yn ochr â thai neu gyfleusterau cymunedol eraill fel Gofal ychwanegol. Byddwn yn parhau i weithio gydag iechyd i ystyried y safle yn rhan o'u prosiect parhaus.

**Dim cwestiwn atodol**

928 CWESTIYNAU CYHOEDDUS –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol ac atebwyd nhw fel y dangosir, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai 2010.

(i) **Cwestiwn gan Mrs. G. Davies-Jones**

Hoffem brynu cerbyd danfon trydan i'n Fferyllfa i ddanfon i gleifion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, ni fyddai gennym unman i wefru'r cerbyd dros nos. A allwch gynnig atebion posibl i'r broblem hon? A allem ofyn am fan parcio gyda gwefrydd oddi ar y ffordd i ochr y Fferyllfa ar Ffordd Island?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Roedd y Cyngor, ar y cyd â Dinas-ranbarth Caerdydd, wedi gosod nifer o bwyntiau gwefru tacsis trydan yn ddiweddar ac mae ganddo gynlluniau i osod pwyntiau gwefru cyhoeddus mewn tua 20 o feysydd parcio cyhoeddus a reolir gan y Cyngor ledled Bro Morgannwg yn haf 2022. Rydym hefyd yn gweithio i ddatblygu polisi gwefru cerbydau trydan ar y stryd a ddylai gael ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2022. Byddai'r Polisi hwn yn nodi sut y gall y cyhoedd ofyn am osod cyfleusterau gwefru cerbydau trydan ar y stryd neu sut y gallant gael mynediad iddynt. Yn y cyfamser, byddwn yn awgrymu eich bod yn cysylltu â'n swyddogion i drafod eich cynigion yn fanylach.

(ii) **Cwestiwn gan Mr. G. Davies**

Pam nad yw Ffordd Porthceri yn ffordd y gall y preswylwyr yn unig barcio ynddi? Dywedwyd wrthyf mai'r rheswm am hynny yw nad yw'n ddigon agos i'r Stryd Fawr ond rwyf wedi cael llond bol ar fynd allan, ar benwythnos yn bennaf ac yna methu â pharcio unrhyw le y tu allan i'm tŷ neu'n agos ato. Siawns bod gan y preswylwyr sy'n talu swm sylweddol o Dreth Gyngor hawl i barcio ger eu tŷ neu'r tu allan iddo. Mae gan bob stryd arall o amgylch y Stryd Fawr ardaloedd i breswylwyr yn unig!

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu manau parcio ar y stryd blaenoriaethol i breswylwyr, er bod hyn yn cael ei dderbyn yn gyffredinol mewn ardaloedd preswyl yn arfer lle mae lle ar gael. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydymdeimlo ag ardaloedd preswyl sy'n agos at leoedd gwyliau neu ganol trefi y gallai nifer yr ymwelwyr effeithio'n andwyol arnynt, ac am y rheswm hwn cyflwynwyd Polisi Rheoli Parcio i Breswylwyr newydd gennym ym mis Gorffennaf 2020. Mae manylion y polisi newydd i'w gweld ar wefan y Cyngor neu gellir eu cael drwy ffonio ein canolfan gyswllt.

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi gosod cynlluniau parcio newydd i breswylwyr yn unig dan ei bolisi newydd mewn gwahanol ardaloedd atyniadau y mae llawer o bobl yn ymweld â nhw. Roedd y rhain wedi'u lleoli ger lleoedd gwyliau arfordirol y Cyngor yn Ynys y Barri ac Aberogwr yr haf diwethaf mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch pobl yn parcio'n amhriodol mewn ardaloedd preswyl. Bwriedir adolygu'r cynlluniau parcio â thrwydded i breswylwyr hyn ar ôl 12 mis i ddeall unrhyw faterion penodol sy'n deillio o'r cyfyngiadau a'r polisi newydd.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cofnodi ceisiadau am fannau parcio i breswylwyr yn unig mewn gwahanol ardaloedd eraill a gallaf gadarnhau bod Porthkerry Road eisoes wedi'i chynnwys ar y rhestr aros o gynlluniau i'w hystyried yn y dyfodol cyn gynted ag y bydd arian addas ar gael. Fodd bynnag, mae rhestr aros sylweddol o tua 100 o leoliadau ar hyn o bryd ac o ystyried y gyllideb a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i weithredu cynlluniau o'r fath, mae'n flin gennyf nad yw'n bosibl ar hyn o bryd roi amserlen ar gyfer darparu darpariaeth o'r fath ar hyd Porthkerry Road.



No.

Hoffwn egluro hefyd na fydd gweithredu cynllun parcio â thrwydded i breswylwyr o reidrwydd yn galluogi preswylwyr i barcio o fewn eu stryd bob amser, ac yn sicr ni fydd yn gwarantu man parcio yn agos at aelwyd neu eiddo penodol o ystyried y nifer gyffredinol o geir sydd gan aelwydydd ar strydoedd teras preswyl, a'r lle cyfyngedig wrth ymyl y ffordd sydd ar gael ar gyfer parcio o'r fath.

Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau, pan fydd y gyllideb ar gael i ystyried y cais am gynllun parcio â thrwydded i breswylwyr yn fanylach ar hyd Porthkerry Road, y cysylltir â phob preswilydd ar y ffordd i gynnal ymgynghoriad anffurfiol i gael consensws yn unol â'r polisi newydd.

(iii) **Cwestiwn gan Ms K. Mottram**

Rwyf i a'm cyd-gymdogion wedi gwneud llawer o ymholiadau i gyflwr y Barri o ran y problemau sbwriel a dympio. Dywedwyd wrthym droeon fod y Cyngor yn ymwybodol iawn o'r mater ac y bydd mwy o staff yn cael eu hanfon i ardaloedd i glirio'r sbwriel. I ni, mae angen mwy na chasglu sbwriel o amgylch y strydoedd, yn enwedig gan nad yw'n bosibl clirio popeth. Credwn fod rhan o'r mater yn ymwneud â'r adnoddau annigonol a roddir, e.e. y bagiau tenau a roddir i ni. Mewn llawer o siroedd ledled Cymru mae preswylwyr yn defnyddio biniau plastig caled gyda chaeadau priodol. A oes unrhyw gynllun ar gyfer hyn? Wrth symud ymlaen os dywedwch eich bod yn ymwybodol o'r materion, rhaid bod cynllun i fynd i'r afael â sbwriel, yn enwedig gan ei fod yn achosi problemau amgylcheddol yn ogystal â phroblemau i bobl ag anableddau sy'n aml yn cael eu llesteirio gan sbwriel a bagiau yn eu llwybr. A fydddech cystal â rhoi gwybod i ni am y cynllun wrth symud ymlaen gydag amserlen ar gyfer cwblhau. Os nad oes cynllun eto, esboniwch pam, beth y gellir ei wneud a beth fydd yn cael ei wneud. Dymuniadau Gorau, preswylwyr y Stryd Fawr, Queen Street a Princes Street.

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth**

Er fy mod yn siomedig o glywed am y problemau rydych i gyd yn eu profi, nid oes unrhyw gynlluniau i ddefnyddio biniau caeedig na newid y cynhwysyddion ailgylchu a gwastraff presennol a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer casgliadau wrth ymyl y ffordd. Nod system y Cyngor yw gwella ansawdd yr ailgylchu a gesglir a lleihau lefelau halogi. Yn aml, achosir lefelau halogi uwch gan gynhwysyddion wedi'u halogi, fel biniau olwynion, gyda deunyddiau problemus yn aml yn cael eu rhoi ar waelod y biniau, gan gael eu sylwi pan fydd yn rhy hwyr wedi i'r deunydd gael ei roi yn y cerbyd casglu.

Efallai na fydd ein trefniadau casglu presennol yn bodloni'r holl ofynion ar gyfer atal halogi deunyddiau ym mhob tywydd ond, ar y cyd â chymorth rhagorol gan ein preswylwyr, maent wedi sicrhau bod Bro Morgannwg yn un o'r awdurdodau ailgylchu gorau yn y DU gyfan.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall bagiau sydd wedi'u camosod achosi rhwystrau ar droedffyrdd, ac rwyf wedi gofyn i'n staff casglu gael eu hatgoffa i blygu bagiau a'u

No.

diogelu mor ymarferol â phosibl, ar ôl eu casglu. Yn ogystal, tynnir sylw staff y Gwasanaethau Cymdogaeth at y materion sbwriel a thipio anghyfreithlon a bydd cais i fwy o staff a swyddogion fod yn bresennol yn yr ardal hon.

Rydym bob amser yn fwy na pharod i weithio gyda grwpiau cymunedol gyda'r nod o wella'r amgylchedd lleol. Er bod gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gynnal glendid y briffordd gyhoeddus, ac y bydd yn parhau i wneud hynny, yn gynyddol, rydym yn gorfod dibynnu mwy a mwy ar gymorth y grwpiau hyn, gan weithio gyda'n staff mewn partneriaeth, i wella glendid ardaloedd lleol i'r safon a ddisgwylir gan y gymuned. Mae'r gwaith partneriaeth hwn hefyd yn codi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau o effeithiau sbwriel a thipio anghyfreithlon ac yn meithrin perchnogaeth o'r broblem, a thrwy hynny ei lleihau dros amser.

Os ydych chi ac unrhyw un o'ch cymdogion yn dymuno gweithio gyda ni ar brosiect sydd â'r nod o wella glendid penodol eich ardal leol, byddai ein swyddogion yn falch o glywed gennych. Gallwch wneud hyn drwy ffonio ein canolfan gyswilt, drwy anfon llythyr neu drwy e-bostio.

(iv) **Cwestiwn gan Miss. N. Williams**

Beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf am Model Farm yn ailgyflwyno cynlluniau datblygu ar yr 17eg? A yw'r datblygiad yn cael mynd yn ei flaen a phryd y bydd y cyhoedd yn gwybod y manylion hyn a ble y gellir gweld yr holl gynlluniau?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio**

Mae'r cais cynllunio ar gyfer datblygu Parc Busnes, yn dilyn dyfarniad diweddar yr Uchel Lys, wedi'i ddychwelyd i'r Cyngor ar gyfer penderfyniad newydd sy'n cynnwys adolygu ac ystyried unrhyw wybodaeth am ddichonoldeb a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr. Bydd y cais yn cael ei gyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor Cynllunio i'w benderfynu maes o law ond nid oes dyddiad wedi'i bennu eto, gan fod ymgynghoriadau newydd ar y gweill ar hyn o bryd a bydd angen eu hystyried yn llawn cyn unrhyw argymhelliad i'r Pwyllgor.

Mae'r holl gymdogion ac unigolion a wnaeth sylwadau ar y cais yn flaenorol wedi cael eu hysbysu drwy lythyr ac mae hysbysiadau wedi'u harddangos ar y safle a'u rhoi yn y wasg, sy'n gwahodd unrhyw sylwadau pellach i'w hystyried. Gellir gweld y cynlluniau a'r dogfennau perthnasol ar gofrestr cynllunio ar-lein y Cyngor neu gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â'r adran cynllunio dros y ffôn neu dros e-bost i gael mwy o wybodaeth.

Mae'r Cyngor hefyd wedi derbyn Cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru yn cyfyngu ar roi caniatâd nes iddi benderfynu a ddylid cyfeirio'r cais at Weinidogion Cymru iddynt benderfynu arno.

(v) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry mewn cyfarfod diweddar Cyngor Bro Morgannwg, dywedodd aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ei fod yn teimlo bod y broses gynllunio'n ddryslyd ac yr aeth ymlaen i dderbyn hyfforddiant pellach. Sut gall y cyhoedd fod ag unrhyw ffydd yn y Cyngor i reoli datblygiad yn y Fro os yw aelodau ei Bwyllgor Cynllunio ei hun yn ei chael yn ddryslyd, ac yn dilyn llythyr gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar yn cadarnhau bod y Fro wedi gwneud penderfyniad anghywir ar y ffatri Biomax?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae pob Aelod o'r Cyngor yn cael rhaglen gynhwysfawr a llawn o hyfforddiant pan gaiff ei ethol yn Gyngorydd a rhoddir hyfforddiant penodol ychwanegol i'r Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio yn benodol ar eu rôl wrth wneud penderfyniadau. Mae'r hyfforddiant yn gadarn, yn seiliedig ar fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru. Ategir hyn gan hyfforddiant diweddar a datblygiad parhaus rheolaidd lle rhoddir gwybod i'r Aelodau am newidiadau i gyfraith a pholisi cynllunio drwy gydol eu tymor. Gall yr Aelodau hefyd gael gafael ar unrhyw gymorth neu gyngor pellach ar unrhyw adeg os bydd eu hangen arnynt ac ar sawl achlysur trefnir hyfforddiant un i un, yn enwedig pan na all unrhyw Aelod fynychu sesiwn hyfforddi wedi'i threfnu a byddwn yn eich sicrhau bod i'r **Holl Gyngorwyr** gael gafael ar becyn llawn o wybodaeth pryd bynnag y bydd ei angen arnynt.

Fodd bynnag, dylid nodi nad yw hyfforddiant i'r Aelodau yn cynnwys rhoi cyngor i'r Aelodau am eu datblygiadau personol neu eu cynigion personol eu hunain ac mewn achosion o'r fath, byddai disgwyl iddynt gael eu cyngor proffesiynol eu hunain ar faterion o'r fath yn yr un modd ag unrhyw aelod o'r cyhoedd neu ddatblygwr arall.

At hynny, ni ddisgwylir i'r Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio fod yn arbenigwyr ar gyfraith a pholisi cynllunio. Fe'u cyngorir gan swyddogion cymwys sy'n rhoi adroddiadau manwl a thrylwyr i'r Pwyllgor Cynllunio sy'n esbonio'r ystyriaethau cynllunio a'r cefndir cyfreithiol ym mhob achos ac yn rhoi rhesymau clir dros eu hargymhellion.

O ran y ffatri Biomax, roedd hwn yn fater cymhleth iawn i'w benderfynu ac roedd yn fater o farn ynghylch a oedd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad ar gyfer cais 2015. Fel y gwyddoch, bryd hynny, cymeradwywyd nad oedd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar y ffatri, a oedd yn cyd-fynd â chyngor Llywodraeth Cymru bryd hynny a oedd wedi dod i'r un penderfyniad.

Camau gorfodi cynllunio arfaethedig y Cyngor a ysgogodd gangen Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniad ac sydd bellach wedi cadarnhau bod angen Asesiad o'r Effaith

No.

Amgylcheddol ar gyfer y datblygiad yn rhan o apêl y datblygwr yn erbyn Hysbysiad Gorfodi'r Cyngor hwn.

(vi) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry, ers misoedd, bu casgliad o rwystrau a chynwysyddion storio mawr ar waelod Thompson Street. Faint yn hirach y bydd yn rhaid i ni ei ddiodef y pethau hyll hyn?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Dywedir wrthyf fod y rhwystrau a'r cynwysyddion storio (cynwysyddion llongau 2 x 14 troedfedd) wedi'u lleoli'n ddiogel ar hyd ochr y ffordd ar Dock View Road tua 20 i 30 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â Thompson Street. Cedwir yr ardal yn daclus ac yn ddiogel gan Wales and West Utilities fel sy'n ofynnol gan y Cyngor, ac rwy'n hapus nad oes unrhyw rwystr yn cael ei achosi i draffig sy'n defnyddio'r rhan benodol hon o briffordd.

Mae'r rhwystrau a'r cynwysyddion storio yn perthyn i Wales and West Utilities sydd â chaniatâd i ddefnyddio'r ardal hon gan y Cyngor i'w storio, tra'u bod yn gwneud gwelliannau hanfodol i bibellau nwy ac yn uwchraddio'r rhwydwaith yn ardal y Barri. Mae gan Wales and West Utilities ddyletswydd statudol i gynnal eu rhwydweithiau nwy ac mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn briodol ac yn bwysig, am resymau diogelwch, gefnogi'r cwmni yn hyn o beth.

Mae tîm Wales and West Utilities wrthi'n gweithio yn Kingsland Crescent, stryd ochr oddi ar Dock View Road. Os aiff popeth yn iawn, caiff ei waith ei gwblhau a chaiff y rhwystrau a'r caban / y compwnd eu symud oddi ar y briffordd ar Dock View Road.

(vi) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry, gan ein bod yn cael ein hannog i ymuno â dathliadau'r Jiwbilî Platinwm, a fydd y Fro yn cyhoeddi canllawiau i breswylwyr sy'n trefnu partiön stryd?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Aeth ein tudalen we ar y Jiwbilî Platinwm yn fyw ddydd Gwener 25 Chwefror 2022 ar ein gwefan Ymweld â'r Fro.

Mae'r dudalen yn rhoi gwybodaeth i breswylwyr y Fro am ddathliadau ledled y Wlad, am Gynnau'r Ffagl, am yr hyn i feddwl amdano wrth gynnal parti Jiwbilî ac am sut i wneud cais i gau ffordd ar gyfer parti stryd (lle bo'n berthnasol).

No.

Gellir anfon unrhyw ymholiadau eraill am y Jiwbilf Platinwm at ein Swyddog Digwyddiadau.

(vi) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry a yw'r Cyngor yn credu ei bod yn dderbyniol i berson anabl aros blynyddoedd ar restr i gael man parcio y tu allan i'w eiddo?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae galw mawr ar y Cyngor am fannau parcio i bobl anabl ac mae hefyd ganddo gyllideb gyfyngedig i weithredu cyfleusterau o'r fath sy'n arwain at gyfnod aros sylweddol i'r ymgeiswyr hynny sy'n gymwys. Er nad ydym yn hapus â'r amser y mae'n rhaid i ymgeiswyr aros, mae gennym broses lle gall preswylwyr wneud cais am fan parcio i bobl anabl. Nid oes gan broses o'r fath gan Gyngorau eraill.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod tua 43 o geisiadau ar y rhestr aros a bydd y 10 cais cyntaf ar y rhestr hon yn cael eu datblygu yn y flwyddyn ariannol newydd sy'n dechrau ym mis Ebrill 2022.

Oherwydd y costau a'r gweithdrefnau cyfreithiol gweinyddol sydd eu hangen i greu mannau parcio i bobl anabl, dim ond tua 10 man parcio i bobl anabl y gall y Cyngor eu creu bob blwyddyn ariannol ac o fewn y gyllideb sydd ar gael. Gallaf hefyd gadarnhau bod y dyraniadau'n cael eu gwneud yn y drefn y derbynnir y ceisiadau.

Fodd bynnag, wedi dweud hynny, o fewn y Polisi presennol, mae mecanwaith lle gall adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ofyn i fan parcio gael ei brysuro, ond dim ond o ganlyniad i set benodol o amgylchiadau ac yn yr achosion mwyaf hanfodol y byddai hyn.

Hoffwn gloi drwy ddweud nad yw mannau parcio i bobl anabl, er eu bod yn cael eu creu'n agos at gyfeiriad cartref yr ymgeisydd, yn cael eu neilltuo ar gyfer pobl unigol yn unig ond eu bod ar gael i'w defnyddio gan unrhyw un sydd â bathodyn glas dilys.

(vi) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry ar ôl gweld y gwaith adeiladu yng Nghei'r Dwyrain ac ar y man agored cyhoeddus newydd, pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod y leinin sy'n llawn gwastraff halogedig yn aros yn gyfan?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae'r caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer y Glannau yn cynnwys amodau sydd wedi ei gwneud yn ofynnol i ymchwilio i halogi posibl a lle y caiff ei ganfod, i'w

No.

adfer. Mae Asesiad Geodechnegol o'r ardal dan sylw yn nodi 'Mae'r doc sych wedi'i ôl-lenwi i bob pwrpas yn gell cadw gwastraff a adeiladwyd gyda leinin HDPE wedi'i beiriannu sydd wedi'i ôl-lenwi â phriddoedd halogedig o ardal dociau'r Barri'.

Mae cynllun mannau agored cyhoeddus wedi'i gymeradwyo yn yr ardal hon, ac mae hynny'n golygu codi lefelau (600mm gyda deunydd gorchudd glân) i sicrhau nad yw'r ardal yn cael ei haflonyddu.

Mae'r amodau ar y caniatâd cynllunio hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad dilysu gael ei gyflwyno a bydd angen hyn ar ôl cwblhau'r gwaith adfer. Mae amod arall yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gael ei weithredu o ran monitro hirdymor.

Mae GRhR y Cyngor yn adolygu ac yn asesu'r holl wybodaeth a dderbynnir yn rhan o'r broses gynllunio mewn perthynas ag amodau halogi tir ar ganiatâd cynllunio. Pe bai unrhyw bryderon yn cael eu mynegi bod y datblygwr wedi torri'r amodau cynllunio, yna byddai Tîm Gorfodi Cynllunio'r Cyngor yn ymchwilio i faterion o'r fath, gyda chymorth / arweiniad technegol gan y GRhR yn ôl yr angen.

(x) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry pryd y gallwn ddisgwyl rhywfaint o gynnydd ar y gampfa awyr agored yn y ganolfan hamdden? Mae'n ymddangos bod yr ardal wedi'i chlirio'n gyflym ac mae bellach wedi'i gadael.

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Byddwn yn cadarnhau ein bod yn awyddus iawn, ynghyd â'n Partner Rheoli Hamdden, Legacy Leisure, i gael yr ardal hon yn weithredol cyn gynted â phosibl.

Er yr archebwyd y prosiect hwn y llynedd, fe'n cynghorwyd bod angen tymheredd aer penodol er mwyn i'r arwyneb newydd gael ei osod er mwyn i warant y gwneuthurwr fod yn berthnasol. Yn anffodus, yr amser cynharaf y mae'n debygol y ceir y tymheredd hwn yn rheolaidd yw mis Mawrth 2022 ac felly mae'r gwaith hwn wedi'i raglennu i ddechrau yn y dyfodol agos iawn, yn amlwg yn dibynnu ar y tywydd.

(xi) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry, a oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i edrych eto ar y cyfyngiadau parcio ar Ynys y Barri? Yn benodol, y cynnydd yn nifer y mannau parcio i bobl anabl ar y Promenâd? Ychydig iawn o fannau parcio sydd bellach ar gael i ymwelwyr heb basys anabl, ac er ei bod yn bwysig iawn i bobl anabl allu parcio'n agos at y promenâd a'r traeth, y realiti yw nad yw llawer o'r mannau hyn yn cael eu defnyddio yn ystod y tymor tawel, pan fydd pobl leol yn tueddu i ymweld â'r Ynys yn fwy - ar gyfer teithiau cerdded, ymarfer corff, ac ati. Deallwn fod masnachwyr lleol (nid oes gennym unrhyw gysylltiadau â busnesau lleol) yn

No.

anhapus am hyn a'r effaith andwyol ar nifer eu cwsmeriaid, a bod deiseb wedi'i threfnu a'i chyflwyno i chi. Mae llawer o bobl leol y mae angen iddynt barcio'n agos at y promenâd - rhieni â babanod a phlant ifanc, nofwyr môr, y rheiny nad ydynt efallai'n symudol iawn ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn anabl. Ac mae llawer mwy gan gynnwys y nifer fawr o grwpiau casglu sbwriel gwirfoddol, grwpiau chwaraeon, ac ati. Sylweddolwn fod maes parcio talu ac arddangos, ond y realiti yw, yn y cyfnod economaidd heriol iawn hwn pan fydd biliau o bob math yn cynyddu'n sylweddol, y byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallai'r Cyngor edrych ar y mater hwn gyda llygaid ffres. A allech chi ystyried lleihau nifer y manau parcio i bobl anabl yn ystod y tymor tawel? Byddai hyn yn dangos dealltwriaeth o anghenion llawer o breswylwyr lleol a busnesau mewn trafferthion.

### **Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Fel y gwyyddoch, cyflwynodd y Cyngor gyfyngiadau parcio newydd ledled Ynys y Barri y llynedd a weithredwyd yn dilyn ymgynghoriad hir yn rhan o Orchymyn Rheoli Traffig (GRhT). Roedd yr ymarfer hwn yn gyfle i unrhyw un wneud sylwadau ar y cynigion neu eu gwrthwynebu.

Ni dderbyniwyd unrhyw bryderon na gwrthwynebiadau ynghylch nifer y manau parcio i bobl anabl a gafodd eu cynnig yn rhan o'r cynllun bryd hynny. Wedi hynny, awdurdododd Cabinet y Cyngor y cynllun GRhT a gynigiwyd ar gyfer Ynys y Barri yn ei gyfarfod ar 21 Mehefin 2021 ac o ganlyniad, gweithredwyd y cyfyngiad parcio diwygiedig, gan gynnwys manau parcio ychwanegol i bobl anabl, yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac ni fyddwn yn newid y trefniant hwnnw yn ôl eich cais i wneud felly.

Mae hefyd yn wir bod Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth parcio ar gyfer deiliaid bathodynau glas ledled y Fro, gan gynnwys lleoedd gwyliau fel y gall pobl anabl fwynhau'r atyniadau niferus sydd ar gael ar gyfer eu lles personol. Diben y cynllun bathodynau glas i bobl anabl yw rhoi mwy o fynediad i wasanaethau lleol drwy alluogi deiliaid bathodynau i barcio ger eu cyrchfan naill ai'n deithiwr neu'n yrrwr cerbyd. Ystyrir bod y manau parcio i bobl anabl ar Friars Road yn cynnig cyfle i ddeiliaid bathodynau barcio'n ddiogel ac yn gyfleus er mwyn gallu cael mynediad i'r gwahanol amwynderau sydd ar gael yn Ynys y Barri, yn ogystal â mwynhau'r golygfeydd a gynigir gan y traeth a'r arfordir o fewn y rhan boblogaidd hon o'r Fro.

Mae llawer o fannau parcio ar y stryd eraill ar gael ar ffyrdd cyfagos i yrwyr eraill sy'n gallu cerdded ychydig ymhellach i gael mynediad at y cyfleusterau a'r atyniadau niferus sydd ar gael, yn ogystal â dau faes parcio mawr oddi ar y stryd sy'n cael eu darparu gan y Cyngor i ddarparu ar gyfer y galw am fannau parcio yn lle gwyliau poblogaidd Ynys y Barri drwy gydol y flwyddyn ac yn ystod digwyddiadau amrywiol sydd wedi'u rhaglennu. Mae hefyd wasanaeth trên rheolaidd sy'n cysylltu Ynys y Barri â gwasanaethau tir mawr eraill, yn ogystal â gwasanaethau bws a nifer o lwybrau teithio llesol diogel.

Nid yw'r Cyngor yn darparu manau parcio i fusnesau na'u gweithwyr naill ai yn Ynys y Barri nac yn unrhyw un o'i le gwyliau neu feysydd parcio canol tref eraill.

No.

Byddai gwneud hynny'n gosod cynsail eithriadol o anodd ledled y Fro gyda nifer o fusnesau eraill yn gofyn am driniaeth ffafriol debyg sy'n anymarferol ac yn amhriodol. Mae meysydd parcio'r Cyngor ar gyfer ymwelwyr, twristiaid neu siopwyr i gefnogi twf economaidd cynaliadwy ar gyfer busnesau lleol yn ogystal â chyflogaeth.

Fodd bynnag, fel y gwyddoch efallai, ein hawydd ni yw helpu Ynys y Barri i fod yn atyniad ffyniannus, fel y mae wedi dod drwy gydol y flwyddyn fwy neu lai. Felly, teimlaf ein bod wedi cyflawni hynny gan ei fod bellach yn lle gwyliau y gellir ymweld ag ef drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, un canlyniad, ar adegau, yw sbwriel a glendid cyffredinol ac rydym yn gwneud ein gorau i reoli'r lle gwyliau, ond rhaid talu am hynny ac mae codi tâl am barcio yn sicr yn helpu gyda'r gost honno.

Hoffwn eich atgoffa ein bod hefyd wedi treialu tocynnau tymor parcio mewn rhai Lleoedd Gwyliau Arfordirol ac yn ein Parciau Gwledig ac mae'n bleser gennyf ddweud bod y Cabinet, yn ei gyfarfod ddydd Llun diwethaf, wedi cefnogi fy argymhelliad i dorri cost tocynnau Tymor yn ein Lleoedd Gwyliau Arfordirol, gan gynnwys Ynys y Barri, o £50 i £30 am 6 mis ac o £100 i £50 am y flwyddyn gyfan. Mae hyn i bob pwrpas yn cynnig cyfle i bobl ymweld bob wythnos am gyhyd ag y dymunant am tua £1.00 ac mae hynny'n cyfateb i'r taliadau trwyddedau yn y Parciau Gwledig. Rhagwelir y bydd y newid hwn yn y prisiau'n dod i rym o 1 Ebrill eleni.

Gallai'r opsiwn hwn fod o ddiddordeb ac o fudd i ymwelwyr lleol a rheolaidd ynghyd â busnesau a'u gweithwyr sy'n chwilio am gyfleoedd parcio cyfleus a chynaliadwy. Bydd manylion llawn y tocynnau tymor newydd hyn ar gael ar wefan y Cyngor.

Yn dilyn hynny, efallai eich bod hefyd yn gwybod ein bod ar fin gosod bolard sy'n codi gyda system adnabod plât rhifau'n awtomatig (APRhA) ym maes parcio Rivermouth, Aberogwr. Dyma'r system gyntaf o'i fath ar gyfer yr Awdurdod hwn a rhagwelir y bydd hyn yn ein galluogi i gyflwyno graddfa fesul awr o daliadau.

At hynny, ac er nad yw'n rhan o'r Adroddiad Ffioedd a Thaliadau, o fewn ein cynlluniau Gwariant Cyfalaf ar gyfer 2022/23 a basiwyd heno, mae arian wedi'i gynnwys ar gyfer cyfleusterau tebyg ym meysydd parcio ein Parciau Gwledig a'n meysydd parcio Arfordirol, felly, rydym yn bwriadu cyflwyno'r un raddfa fesul awr ar gyfer y meysydd parcio hynny hefyd, er y gallai fod yn ffafriol prynu tocyn tymor a allai arbed mwy o arian i ymwelwyr rheolaidd.

Hyderaf fod yr ateb hwn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd nag ar hyn o bryd.

Yn olaf, i fynd i'r afael ag un o'ch pwyntiau eraill, fel y gwyddoch yn iawn, mae'r Cyngor wedi rhoi eithriad i nifer cyfyngedig o gasglwyr sbwriel wedi'u trefnu rhag talu'r taliadau parcio yn ei feysydd parcio yn Ynys y Barri i annog gweithgareddau o'r fath er budd y lle gwyliau a bydd yn parhau i wneud hyn tra bod gwirfoddolwyr yn barod i gymryd rhan.



No.

Fodd bynnag, er gwaethaf trefniant o'r fath, gobeithiaf eich bod yn gwerthfawrogi ac yn deall, yn anffodus, na allwn roi eithriad i bob grŵp sy'n gwneud cais o'r fath ac y gallai'r gostyngiad mewn taliadau helpu i leddfu unrhyw faterion o'r fath. Unwaith eto. Rwy'n ail-bwysleisio bod y refeniw o'r meysydd parcio yn hanfodol i helpu i gynnal a chadw a rheoli'r safleoedd poblogaidd hyn a gerir gan bawb ac y mae llawer o bobl yn ymweld â nhw, a'i fod hefyd yn gwrthbwysu costau ar gyfer amwynderau cyhoeddus eraill a ddarperir gan y Cyngor yn ei leoedd gwyliau arfordirol.

(xii) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry pryd y bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad cynnydd ar y cynllun i gysylltu'r Barri a Dinas â llwybr cerdded a beicio?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Gallaf ddweud bod yr holl waith a wnaed hyd yma ar y cynllun teithio llesol posibl cyffrous hwn i gysylltu'r Barri â Dinas Powys wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan Swyddogion a bydd ymgynghoriad ar yr opsiynau posibl ar gyfer y llwybr teithio llesol yn cael ei gynnal cyn Pasg 2022. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau a allai fod gan Beautiful Barry ar yr opsiynau posibl yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

(xiii) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry, ar ôl cael gwybod gan berchennog busnes yn y Barri bod 3 ffenestr siop wedi'u torri yn Heol Holttwn, a all y Cyngor gadarnhau bod teledu cylch cyfyng ar waith ac yn gweithio a bod y troseddwr wedi'u nodi?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae teledu cylch cyfyng ar waith yn ardal Heol Holttwn a gallaf gadarnhau bod yr Heddlu'n ymchwilio i'r difrod troseddol hwn a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol hwn.

Mae'r swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu i helpu i nodi unigolion. Gan fod hwn yn ymchwiliad parhaus gan yr Heddlu, ni fyddai'n briodol i'r Cyngor wneud sylwadau pellach ar hyn o bryd.

(xiv) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry, yn dilyn yr ateb eithaf amhriodol i'n cwestiwn am ollyngiadau carthffosydd i'r Hen Harbwr, lle dywedodd y Cyngor y dylem gysylltu â Dŵr Cymru ein hunain gan nad y Cyngor sy'n gyfrifol am y gollyngiadau - a wnaiff y Cyngor ailystyried ei ymateb o ystyried mai nhw yw perchnogion y tir hwn, a'r ffaith bod llawer o blant ac oedolion yn defnyddio'r dŵr ar gyfer caiacio, padlfyrddio a nofio dŵr oer, ymhlith pethau eraill? Cyngor Bro Morgannwg yw'r perchennog

No.

ac mae'n rheoli'r tir â'r enw "Hen Harbwr" sydd wedi'i leoli yn y Barri. Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai yw'r adran sy'n gyfrifol am yr Hen Harbwr yn y Barri ac am ei reoli ar ran Cyngor Bro Morgannwg.

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/enjoying/Barry-Harbour.aspx>

### **Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae'n dal yn wir mai Dŵr Cymru yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am yr holl ollyngiadau carthffosydd cyfun ledled y Fro, ac os bydd gan breswylwyr neu eraill unrhyw bryderon ynghylch gollyngiadau o'r fath, yna'r cam priodol fyddai codi'r pryderon hyn yn uniongyrchol gyda Dŵr Cymru fel sydd wedi'i gynghori o'r blaen.

At hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gyfrifol am ansawdd dŵr, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd dŵr ymdrochi ac eto os oes gan breswylwyr neu eraill unrhyw bryderon ynghylch monitro a ffynonellau llygredd, yna dylent gysylltu'n uniongyrchol â CNC er enghraifft drwy eu gwefan.

O ran ansawdd dŵr yn gyffredinol, mae'n bleser gennyf ddweud bod adroddiad blaenorol gan CNC yn egluro bod pob corff dŵr yng Nghymru, gan gynnwys y Fro, yn bodloni'r safon 'dda' neu 'ddigonol' o ansawdd dŵr pan gafodd ei brofi gan CNC gyda Cold Knap, y Barri yn cael ei ddisbarthu'n ardal gydag ansawdd dŵr "rhagorol". Ni chafodd unrhyw ddyfroedd ymdrochi dynodedig eu dosbarthu'n rhai gwael.

#### **(xv) Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry, ar ôl cael gwybod bod arian ar gael ar gyfer y parc sglefrio yn y Cnap, a all y Cyngor roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni ar gyfer dechrau a chwblhau'r gwaith?

### **Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae cynlluniau ar gyfer Parc Sglefrio newydd posibl yn y Cnap yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. Er bod y Cyngor wedi neilltuo rhywfaint o arian cyfatebol ar gyfer y prosiect cyffrous hwn [fel y nodir yn yr Adroddiad Cynigion Cyfalaf y cytunwyd arno heno] ynghyd â chyfraniad sydd wedi'i gadarnhau'n garedig o Gronfa Goffa Richard Taylor, ceisir arian allanol ychwanegol o hyd. Hyd nes y caiff yr arian allanol hwn ei gadarnhau, a fydd, gobeithio, o fewn yr wythnosau nesaf, ni allaf wneud unrhyw ymrwymadau pendant ynghylch pryd y bydd y gwaith angenrheidiol yn dechrau neu'n cael ei gwblhau. Fodd bynnag, mae'r prosiect hwn yn uchel ar ein agenda ac yn rhywbeth yr ydym yn sicr yn ei flaenoriaethu.

929 MATERION YR OEDD Y MAER WEDI PENDERFYNU YN FRYS

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y materion canlynol yr oedd y Maer wedi penderfynu eu bod yn rhai brys am y rheswm a roddwyd o dan y penawdau cofnodion.

930 CYFLWYNO STRATEGAETH FUDDSODDI GWASANAETH NAD YW'R TRYSORLYS ARFAETHEDIG, Y GRONFA FUDDSODDI A TWF (CYF) - **(Mater yr oedd y Maer wedi penderfynu ei fod yn fater brys oherwydd yr angen i'r Cyngor ystyried barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 7 Mawrth, 2022 gyda'r bwriad o gyflwyno'r cynllun ar 1 Ebrill, 2022.)**

Ystyriodd y Cabinet y mater uchod yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2022.

Diben yr adroddiad oedd amlinellu cynigion ar gyfer cyflwyno Strategaeth Buddsoddi mewn Gwasanaethau'r Tu Allan i'r Trysorlys yn 2022/23 i Gefnogi Adfywio Economaidd a Thwf ym Mro Morgannwg.

Nododd Atodiad 1 yr adroddiad y cynigion ar gyfer Strategaeth Buddsoddi mewn Gwasanaethau'r Tu Allan i'r Trysorlys, a fwriadwyd i fynd i'r afael â chyfleoedd a nodwyd yn Strategaeth Adfer y Cyngor i gefnogi adfywio busnes ac economaidd arloesol, cynyddu buddsoddiad rhaglenni cyfalaf a chanolbwyntio ar swyddi gwyrdd a seilwaith gwyrdd.

Byddai'r Gronfa Adfywio Economaidd a Thwf yn cael ei hariannu gan ddefnyddio £2.2m o Gronfa Wrth Gefn y Gronfa Adfywio Economaidd a Thwf a chyda darpariaeth ar gyfer Benthycia Darbodus o hyd at £10m. Mae'r gronfa fuddsoddi yn dod i gyfanswm o £12m gyda £200k wedi'i glustnodi ar gyfer costau dichonoldeb a diwydrwydd dyladwy a'r costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â Chyngor Buddsoddi'r Tu Allan i'r Trysorlys arbenigol.

Byddai'r Gronfa Adfywio Economaidd a Thwf yn cael ei chefnogi gan Fwrdd Prosiectau Strategol gyda Phenderfyniadau Buddsoddi'n cael eu cymeradwyo gan y Cabinet ac adroddiadau rheolaidd i'r Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Y peth cyntaf y dylid ei wneud gydag unrhyw enillion o fuddsoddi yw ad-dalu dyled ac adeiladu cronfa wrth gefn glustnodedig i liniaru'r risgiau a nodir yn yr adran rheoli risg yn Atodiad 1.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei fod yn adroddiad pwysig gan ei fod weithiau'n glir beth oedd ei angen er mwyn gwneud gwahaniaeth o fewn cymuned ond nid oedd bob amser yn bosibl dod o hyd i gyllideb berthnasol. Wrth geisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb neu wella twf economaidd mewn ardaloedd lle nad oedd cyfraniadau Adran 106 ar gael, roedd cael ffynonellau ariannu amgen ar gyfer ardaloedd sydd eisoes wedi'u datblygu yn hanfodol.

Roedd y Cabinet wedi penderfynu argymhell y canlynol i'r Cyngor i'w cymeradwyo:

No.

- (1) Nodi a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r Strategaeth Buddsoddi mewn Gwasanaethau'r Tu Allan i'r Trysorlys (Atodiad 1).
- (2) Cyfeirio'r Strategaeth Buddsoddi mewn Gwasanaethau'r Tu Allan i'r Trysorlys at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w hystyried.
- (3) Cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddi mewn Gwasanaethau'r Tu Allan i'r Trysorlys ar gyfer 2022/23 i 2024/25.
- (4) Sefydlu Bwrdd Prosiectau Buddsoddi a Thwf Strategol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Gronfa Adfywio Economaidd a Thwf.
- (5) Defnyddio'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y'i nodir yn Adran 14.14 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn i Strategaeth Buddsoddi mewn Gwasanaethau'r Tu Allan i'r Trysorlys gael ei chyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 1 Mawrth 2022 a'r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2022, gydag unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 i'w hystyried.

PENDERFYNWYD - Nodi ac ystyried cyfeiriad y Cabinet at 7 Mawrth 2022, cofnod rhif C845, ar y cyd â'r cyfeiriad brys gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 1 Mawrth, 2022 ar yr un mater.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn i'r Cyngor allu ystyried y cyfeiriadau gyda'i gilydd.

931 CYFLWYNO STRATEGAETH FUDDSODDI GWASANAETH NAD YW'R TRYSORLYS ARFAETHEDIG, Y GRONFA FUDDSODDI A TWF (CYF) - **(Mater yr oedd y Maer wedi penderfynu ei fod yn fater brys oherwydd yr angen i'r Cyngor ystyried barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 7 Mawrth, 2022 gyda'r bwriad o gyflwyno'r cynllun ar 1 Ebrill, 2022.)**

Roedd y Cabinet, ar 28 Chwefror 2022, wedi cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2022 gyda chais i farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael ei hystyried gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 gyda golwg ar gyflwyno'r cynllun ar 1 Ebrill 2022.

Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson ei bod yn dda gweld y Cyngor yn edrych ar fuddsoddiadau gyda manteision cymdeithasol cadarnhaol, ac roedd yn cytuno â'r model llywodraethu. Fodd bynnag, nid oedd yn glir pam yr oedd y Cyngor wedi dewis newid ei bolisi yn awr, pan oedd posibiliadau fel hyn ar gael dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y cynnig hwn wedi deillio o rai o'r pwyntiau a godwyd yn rhan o Strategaeth Adfer y Cyngor, ond roedd wedi cymryd peth amser i'w gyflwyno ac roedd wedi'i ohirio gan gapasiti swyddogion.

No.

Dyweddodd y Cynghorydd Wilson ei fod yn croesawu'r strategaeth hon, ond roedd ganddo rai pryderon gan fod angen i hyn fod yn amserol ac y gallai fod yn broses fiwrocrataidd iawn. Felly, roedd angen i hyn gael ei reoli'n ofalus iawn gan y Cyngor, yn enwedig gan fod y dull model 5 achos yn cael ei fabwysiadu. Roedd angen i'r Cyngor hefyd fod yn benodol iawn gyda'r hyn yr oedd am ei gyflawni a sut y byddai hyn yn cael ei fesur. Roedd hefyd yn hanfodol i fwy o waith gael ei wneud mewn perthynas â'r fethodoleg i'w defnyddio ac mewn perthynas â'r agwedd amser.

Gofynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Carroll, a oedd unrhyw ddadansoddi wedi'i wneud ar yr effeithiau posibl y gallai cyfraddau llog cynyddol eu cael ar y strategaeth, a oedd yn bryder o ystyried y sefyllfa chwyddiant debygol. Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Gweithredol fod rhywfaint o ddadansoddi sensitifrwydd lefel isel iawn ar gyfraddau dangosol wedi'i gynnal. Byddai hefyd yn bwysig cynnwys dadansoddi sensitifrwydd ar gyfraddau llog mewn unrhyw achosion busnes a gyflwynwyd. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod rhywfaint o fanylion yn yr adroddiad am y gyfundrefn rheoli perfformiad, ond efallai y gellid defnyddio system goleuadau traffig i rybuddio'r Aelodau os oedd unrhyw broblemau. Roedd yn bwysig cydnabod mai dull arferol y Cyngor oedd benthycu ar sail cyfradd sefydlog, a helpodd i warchod rhag amrywiadau mewn cyfraddau llog. Yn ogystal, byddai amcanestyniadau cyfradd llog y Cyngor o fewn y canllawiau a dderbyniwyd gan ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol hefyd y byddai angen defnyddio arbenigedd rheoli eiddo a buddsoddi yn rhan o'r strategaeth hon a'r gwaith o reoli'r buddsoddiadau hyn.

Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio -

**(1) Nodi cynnwys y Strategaeth Buddsoddi mewn Gwasanaethau'r Tu Allan i'r Trysorlys.**

**(2) Rhoi gwybod i'r Cyngor am sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sef:**

- **Pryderon y gallai hyn arwain at rywbeth gor-fiwrocrataidd felly mae angen eglurder penodol am yr agwedd amser, am yr hyn y mae buddsoddiadau'r Cyngor am ei gyflawni ac am sut y caiff llwyddiant ei fesur;**
- **I fwy o waith gael ei wneud mewn perthynas â methodoleg sut y caiff buddsoddiadau eu gwneud;**
- **Pryderon am effaith bosibl cynnydd i Gyfraddau Llog yn y dyfodol ar fuddsoddiadau ac asedau."**

Mae'r Cyngor wedi ystyried y ddau gyfeiriad

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 1 Mawrth 2022.

No.

(2) Cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddiadau nad ydynt yn rhan o'r Trysorlys mewn Gwasanaethau arfaethedig ar gyfer 2022/23 i 2024/25 fel yr adroddwyd i'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022, cofnod rhif C845

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried y sylwadau yn y cyfeiriad.

(2) Er mwyn gweithredu'r Gronfa Dwf a Buddsoddiadau nad ydynt yn rhan o'r Trysorlys mewn Gwasanaethau ar gyfer 2022/23 ac wedi ystyried yr adroddiad i'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022, cofnod rhif C845.